



**Dinas a Sir Abertawe**

**Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb  
2014/15  
(Y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis  
Mawrth 2015)**

## **Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb**

### **1. Cyflwyniad**

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2014-15. Dyma'n pedwerydd adolygiad dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- Adolygiad o gynnydd ein Hamcanion Cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth cyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

### **2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o gynnydd yn ystod mis Ebrill - Mai 2015 a darparodd pob adran fanylion am ei chynnydd. Ceir yr holl wybodaeth hon yn Atodiad 1. O ran nifer bach y camau gweithredu na ddatblygodd yn 2014-2015, mae swyddogion wedi darparu manylion ac wedi diweddarau terfynau amser lle bo'n briodol (yn unol â'r rheoliadau). Lle bu angen newid neu ddatblygu camau gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, amlygir hyn trwy gydol y cynllun gweithredu.

### **3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb**

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth am gydraddoldeb a gasglwyd yn ystod 2011-12, ac rydym wedi ychwanegu ati trwy lawer o'r gweithgareddau y sonnir amdanynt trwy gydol yr adroddiad hwn. Yn ogystal â hyn:

- Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC.
- Cwblhawyd asesiad o anghenion er mwyn cyfeirio ein Cynllun Integredig Sengl cyntaf – Cynllun Un Abertawe:  
<http://www.abertawe.gov.uk/sna>
- Yn dilyn y ddau seminar rhyngasiantaeth a gynhaliwyd mewn partneriaeth rhwng Dinas a Sir Abertawe a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, lluniwyd adroddiad ar Gysylltu Strategaethau Tlodi ac Anghydraddoldeb mewn Addysg (Sut ceir manteision a beth ydynt?). Cyflwynwyd yr adroddiad, a oedd yn archwilio cysylltiadau rhwng tlodi ac anghydraddoldeb gan ddefnyddio cyrhaeddiad addysgol fel enghraifft, ym mis Tachwedd 2014 fel rhan o ymateb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad i dlodi yng Nghymru:  
<http://www.senedd.cynulliad.cymru/ielssueDetails.aspx?Ild=8469&Opt=3>
- Cynhaliwyd ail Uwch-Arolwg Plant a Phobl Ifanc ar draws ysgolion uwchradd yn Abertawe yn nhymer haf 2014 i geisio barn pobl ifanc am bethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r

arolwg wedi bwydo i mewn i gynllunio gwasanaethau a datblygiadau ac yn helpu i ddangos y gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Cytunwyd bellach y bydd yr Uwch-arolwg PPI yn cael ei gynnal bob yn ail flwyddyn, a chynhelir y trydydd arolwg yn nhymor yr haf 2016, ynghyd â'r arolwg a ddatblygwyd o'r newydd sy'n diwallu anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, fel y gallwn sicrhau ein bod yn casglu barn cynifer o blant a phobl ifanc â phosib. Caiff canlyniadau o'r arolwg eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol i fesur y pellter a deithiwyd.

- Mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n data corfforaethol, yn arbennig trwy ganlyniadau cyfrifiad 2011 sy'n dod i'r amlwg. Darperir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 (Amcan Cydraddoldeb 2).

#### **4. Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant**

Gweler Atodiad 2 am yr wybodaeth hon.

#### **5. Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn ystod 2013-14.

##### 5.1 Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad (PCC)

Disodlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb gan y PCC uchod yn 2014. Cylch gwaith y PCC newydd (sy'n cynnwys cynghorwyr) yw cynorthwyo'r Aelod Cabinet perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r ymrwymadau polisi a fabwysiadwyd gan y cyngor. Cynhaliodd PCC ei gyfarfod misol cyntaf ym mis Medi 2014.

Roedd cyfarfodydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a'r PCC drwy gydol 2014-15 yn canolbwyntio ar y materion/meysydd gwaith canlynol:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Adroddiad adolygiad blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg
- Ceiswyr Iloches a ffoaduriaid, mewnfudo a chydlyniant cymunedol
- Cynnwys Staff
- Abertawe Gynaliadwy - ymgynghoriad
- Cam-drin yn y cartref
- Adroddiad adolygu cydraddoldeb
- Cyfathrebu â gofalwyr

Am fwy o wybodaeth ac i weld cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor, ewch i <http://democracy.swansea.gov.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=0?Lang=cy>.

##### 5.2 Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb

Mae'r ein Haelodau Hyrwyddo Etholedig yn ymdrin â holl nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin yn y cartref) a chânt eu cefnogi gan aelodau'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a chydweithwyr o adrannau eraill lle bo'n briodol.

Nod yr Aelodau Hyrwyddo yw rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu

cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i unrhyw unigolyn neu bwyllgor.

Mae Aelodau Hyrwyddo'n sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisiau a phenderfyniadau'r cyngor. Maent yn llunio adroddiadau rheolaidd i PCC ar Gynnwys a Chynhwysiad. Maent hefyd yn derbyn gwybodaeth gan sefydliadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Am fwy o fanylion, ewch i

<http://democracy.swansea.gov.uk/mgListOtherPosts.aspx?bcr=1&LLL=0>

### 5.3 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Rydym wedi gwneud mwy o waith i wella'n proses AEC eleni. Rydym wedi integreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r broses hon. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn cyflawni'n hymrwymiad sylw dyledus i Hawliau Plant. Fel bob amser, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau'n hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod AEC yn cael eu holrhain a'u monitro drwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo'r angen.

Mae pob adroddiad AEC sydd wedi'i gwblhau yn parhau i gael ei gyhoeddi yn [www.abertawe.gov.uk/eia](http://www.abertawe.gov.uk/eia) ac (fel ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol) roedd cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15 yn destun y broses AEC.

### 5.4 Ymgynghori a Chynnwys

Mae gwybodaeth am ein dulliau a'n trefniadau ymgynghori a chynnwys ar gael yn <http://www.abertawe.gov.uk/ymgynggori>. Darperir diweddariad ychwanegol yn Atodiad 1 – gweler Amcan Cydraddoldeb 1.

Yn dilyn gwaith y llynedd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

#### ➤ Fforwm LGBT

Mae'r cyngor yn gwerthfawrogi cymuned lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) Abertawe'n fawr ac mae gwaith yn parhau gyda sefydliadau partneriaeth i gefnogi mentrau i herio rhagfarn a gwahaniaethu a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfraniad cadarnhaol dinasyddion LGBT at Ddinas a Sir Abertawe.

Dechreuodd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012 ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth. Rheolir y fforwm gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac mae ei haelodau'n cynnwys gweithwyr a gwirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli diddordebau dinasyddion LGBT.

Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys:

- Bi Cymru
- Cymorth i Ddiodefwyr
- Age Cymru
- Trawsrywiol yng Nghymru
- Tawe Butterflies
- Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
- Cymdeithas LGBT Prifysgol Abertawe
- Prosiect Undod LGBT Abertawe
- Stonewall Cymru

yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus megis y DVLA, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r fforwm wedi cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau megis Swansea Sparkle, Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a thrawsffobia (IDAHOT), Mis Hanes LGBT, Balchder Abertawe a Diwrnod Deu-weledd. Dathlodd Dinas a Sir Abertawe bob achlysur ymhellach trwy chwifio'r Faner Enfys y tu allan i adeilad y Ganolfan Ddinesig. Cafodd y faner drawsrywedd ei chwifio hefyd ar gyfer Dydd Cofio Pobl Drawsryweddol ac ar gyfer Swansea Sparkle yn 2014.

Mae cyfarfodydd fforwm wedi cynnwys cyfnewid gwybodaeth a thrafodaethau a oedd yn canolbwyntio ar:

- Droseddau casineb
- Iechyd - ymarferion ymgynghori amrywiol
- Prosiect Prifysgol Abertawe - darparu gwasanaethau cynhwysol a gwrthwahaniant i bobl LGBT hŷn
- Addysg - Swyddogion Cyswllt yr Heddlu mewn Ysgolion - gwaith LGBT mewn ysgolion
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y cyngor

Cynhaliwyd adolygiad dwy flynedd o'r fforwm yn 2014. Rhoddodd hyn y cyfle i aelodau ailystyried nodau ac amcanion a chynllunio ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ag ymagwedd thema fwy penodol. Penderfynodd aelodau y byddai Troseddau Casineb ac Addysg (o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion a mynd i'r afael â ffobia LGBT mewn ysgolion) yn flaenoriaethau ar gyfer 2015. Roedd aelodau'r fforwm yn hapus â'r cynnydd a wnaed ers ei gychwyn ac roeddent yn hapus i barhau i weithio gyda'i gilydd.

#### ➤ Fforwm BME

Nid yw Fforwm Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) Bae Abertawe wedi cwrdd mor aml eleni. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, Heddlu De Cymru, i ystyried y ffordd orau i ddatblygu gwaith y fforwm a pharhau i gynnwys pobl.

Mae cyfarfodydd y fforwm wedi cynnwys:

- Prosiectau Mae Lleisiau wedi Siarad Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe ac Eiriolaeth Hynafgwyr Lleiafrifoedd Ethnig
  - Prosiect ESIL Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Cymru
- Cynhaliodd y Ganolfan Ddinesig arddangosfa i nodi Mis Hanes Pobl Dduon 2014. Yna, symudwyd yr arddangosfa i Amgueddfa'r Glannau lle cafodd ei arddangos hefyd.

### 5.5 Troseddau Casineb

Roedd gan y cyngor broses adrodd trydydd parti ar gyfer achosion o gasineb ac aflonyddu ar waith ers sawl blwyddyn. Dros y blynyddoedd diweddar fodd bynnag, mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd wedi lleihau'n sylweddol. Yn dilyn adolygiad o'r gwaith ynghylch troseddau casineb, penderfynwyd mabwysiadu proses genedlaethol newydd wedi'i gweinyddu gan Gymorth i Ddiodefwyr.

Comisiynwyd Cymorth i Ddiodefwyr gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer sy'n adrodd am droseddau casineb a digwyddiadau casineb ledled Cymru a chynnig cymorth ychwanegol i ddiodefwyr y troseddau hyn. Maent wedi sefydlu canolfan gymorth ac adrodd am droseddau casineb newydd, genedlaethol i Gymru, ac felly maent wedi cymryd yr awenau gan Gymru Ddiogelach o ran adrodd trydydd parti.

Gall Cymorth i Ddiodefwyr gynnig amrywiaeth o wasanaethau a gallant deilwra cefnogaeth i anghenion pob diodefwyr, a all gynnwys:

- Cefnogaeth emosiynol
- Cefnogaeth ymarferol
- Eiriolaeth neu gyfiawnder adferol

Am fwy o wybodaeth, ewch i <http://www.reporthathe.victimsupport.org.uk/hate-crime/>

Mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau wedi helpu gyda'r newid hwn drwy hysbysu meysydd gwasanaeth o'r broses newydd a dosbarthu posteri a ffurflenni adrodd Cymorth i Ddiodefwyr a dolenni i wefannau. Mae StaffNet a gwefan y cyngor wedi'u diweddarau ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu er mwyn i staff rheng flaen wreiddio'r broses newydd ymhellach i'w busnes dyddiol.

Mae gan Gynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2014-16, a fabwysiadwyd yn lleol, ganlyniad penodol ar droseddau casineb (Canlyniad 1 - adrannau, sefydliadau a phobl yn deall troseddau casineb, diodefwyr yn gwneud adroddiadau ac yn cael cefnogaeth briodol) I fodloni'r amcan hwn, mae'r cyngor yn datblygu Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb lleol gyda phartneriaid allweddol (i gysylltu â 'Tacio Troseddau Casineb a Digwyddiadau: Fframwaith Gweithredu' Llywodraeth Cymru).

### 5.6 Gwaith Rhanbarthol a Phartneriaeth

Yn ogystal â gwaith y bartneriaeth y sonnir amdano drwy'r adroddiad hwn, mae'r Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol, a sefydlwyd gennym ym mis Mawrth 2011, yn parhau i gwrdd, er yn llai aml. Bydd cyfarfodydd mwy rheolaidd yn

ailgychwyn ym mis Ebrill 2015, gan fod aelodau'r grŵp wedi cytuno i ddod ynghyd wrth i bob un ohonom weithio tuag at CCS diwygiedig ar gyfer 2016.

### 5.7 Stonewall

Mae Stonewall Cymru'n elusen Cymru gyfan sy'n ceisio cyflawni cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LGB) ar draws Cymru. Daeth Dinas a Sir Abertawe'n aelod o Stonewall yn 2013 pan ymunodd â'r rhaglenni Hyrwyddwyr Amrywiaeth a Hyrwyddwyr Addysg.

Mae Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall yn fforwm arfer da ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â'r gweithle. Trwy ymuno â'r rhaglen hon, rydym yn ymrwmo i hyrwyddo amrywiaeth a gwella'r gweithle ar gyfer pobl LGB. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw cymeron ni ran yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle sy'n meincnodi cyflogwyr yn ôl eu tegwch tuag at weithwyr LGB. Fe'n rhestrwyd yn 238 o 397 ar ein hail ymgais ar y mynegai o'i gymharu â 302 o 369 yn ein hymgais gyntaf.

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb, ni fyddwn yn cymryd rhan yn y Rhaglen Hyrwyddwyr yn y dyfodol agos, ac felly nid ydym yn gallu cymryd rhan yn y Mynegai.

Mae Rhaglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol i fynd i'r afael â homoffobia a bwlio homoffobig yn eu hysgolion er mwyn hyrwyddo amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol i bob person ifanc. Yn debyg i Fynegai'r Gweithle, mae'r Mynegai Cydraddoldeb Addysg yn ymarfer meincnodi blynyddol i ddangos pa mor dda mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â homoffobia a bwlio homoffobig yn eu hysgolion ac yn cefnogi pobl ifanc LGB yn eu cymuned leol. Gyda'n cyflwyniad cyntaf, roeddem yn y 26<sup>ain</sup> safle o 45 awdurdod lleol yn y DU ym Mynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall 2014.

Rydym bellach yn rhan o aelodaeth ranbarthol y rhaglen hon, felly er na fyddwn fel cyngor yn cymryd rhan yn y Mynegai yn yr un ffordd, bydd ysgolion yn parhau i elwa o gefnogaeth a hyfforddiant Stonewall.

### 5.8 Addysg ac Ysgolion

Mae gwaith wedi parhau ar ddatblygu protocol monitro er mwyn i ysgolion gofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Roedd y broses Digwyddiadau Hiliol flaenorol yn hen-ffasiwn o ran ei chynnwys a'i gweithredu fel ymarfer gweinyddol. Mae gwaith i ddatblygu mecanwaith hawdd ac effeithiol ar gyfer ysgolion a fydd yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig, bron â dod i ben. Bu'r trafodaethau cychwynnol â phenaethiaid yn gadarnhaol, a disgwylir i gam peilot gael ei gynnal ym mis Mehefin 2015 cyn ei lansio yn nhymor yr hydref.

Mae ein gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi parhau yn 2014-15.

### 5.9 Gwaith gyda Phobl Hŷn

Mae gwaith ar gyflwyno Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru Llywodraeth Cymru yn lleol wedi cynnwys:

- adolygiad, gyda'r Grŵp Rheoli, o gyflawniadau, nodau a swyddogaethau Rhwydwaith 50+. Datblygwyd argymhellion i newid y strwythur a'r trefniadau ar gyfer trefnu'r Rhwydwaith, i'w hystyried yn ei gyfarfod blynyddol.
- cynhyrchu a dosbarthu cylchlythyr Rhwydwaith 50+
- digwyddiad yn Theatr y Grand i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU yr aeth 300 o bobl iddo
- Cyfarfod Blynyddol Rhwydwaith 50+ a benderfynodd dreialu'r newidiadau gweithredol a argymhellwyd gan yr adolygiad
  - Trefnwyd ymweliad ymholi Rhwydwaith Dinasoedd Cyfeillgar i Oed y DU y Celfyddydau a Phobl Hŷn gan dîm o ddeuddeg o gyfoedion o ddinasoedd gwahanol y rhwydwaith a rhannau o Gymru mewn partneriaeth â Sefydliad Beth Johnson. Casglwyd gwybodaeth a mewnwleidiadau gan y tîm am y celfyddydau lleol a oedd ar gynnig i bobl hŷn drwy raglen strwythuredig o enghreifftiau a sgysiau a oedd yn ymateb i linellau ymholi allweddol a bennwyd yn lleol. Mae adroddiad wedi cael ei lunio.
  - trefnwyd sesiwn galw heibio yng nghanol y ddinas ac arolwg ar-lein a oedd yn gofyn cwestiynau penodol am y pum blaenoriaeth heneiddio'n dda i gyfeirio datblygiad cynllun heneiddio'n dda yn Abertawe
- cydlynu gwybodaeth gan wasanaethau ar draws y cyngor ar gyfer Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol Cymru Gyfan Swyddfa Archwilio Cymru ar annibyniaeth pobl hŷn.

Ym mis Medi 2014, roedd y cyngor wedi cymeradwyo dod yn Gymuned/Ddinas sy'n Gefnogol o Ddementia.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe wedi cytuno i ddatblygu strategaeth drosgynnol ar gyfer Pobl Hŷn a'r cynllun heneiddio'n dda. Cyfarfu grŵp partneriaeth i oruchwylio datblygu'r cynllun a'i roi ar waith am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2015.

#### 5.10 Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu Byw'n Annibynnol

Ym mis Ionawr 2014, derbyniodd Byrddau Gwasanaeth Lleol ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru am y fframwaith hwn. Gofynnwyd i'r holl bartneriaid am fanylion eu gwaith mewn perthynas â phrif themâu'r fframwaith. Coladwyd gwybodaeth gennym o bob rhan o'r cyngor er mwyn cyfrannu at yr ymateb lleol, a dilynwyd hyn ym mis Ionawr gan gyfarfod cadarnhaol gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru ac Anabledd Cymru.

#### 5.11 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Ers mis Medi 2013, pan ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu dyletswydd 'sylw dyladwy' o ran hawliau plant, rydym wedi datblygu Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn nodi'r trefniadau sydd gan Ddinas a Sir Abertawe i sicrhau cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyladwy ar gyfer gwreiddio CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol.

Lansiwyd y cynllun gan Lysgennad Unicef y DU a'r actor Cymreig, Michael Sheen, a ymunodd â 111 o blant a chynrychiolwyr o Abertawe yn Ysgol Gyfun

Pentrefhafod ddydd Iau, 20 Tachwedd 2014. Roedd y digwyddiad hefyd yn dathlu 25 mlynedd ers sefydlu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac ynddo roedd plant, pobl ifanc ac oedolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn cyfres o weithgareddau'n seiliedig ar hawliau.

Mae'r prif amcanion ar gyfer 2014/15 wedi canolbwyntio ar gwblhau'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc a sefydlu prosesau ar gyfer ei roi ar waith, gan alluogi cydymffurfio â hawliau plant yn Ninas a Sir Abertawe, eu monitro a'u hamlygrwydd, a hefyd fesur effaith y Cynllun Hawliau PPI.

Mae Cynllun Gweithredu CCUHP 2016-16 wedi'i ddatblygu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir ar gyfer y flwyddyn ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at Hawliau Plant.

Mae chwe maes allweddol sy'n canolbwyntio ar:

1. Wneud y fath drefniadau yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
2. Datblygu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono drwy hyfforddiant i'r holl staff a'r sawl sy'n penderfynu yn Ninas a Sir Abertawe, gan gynnwys partneriaid statudol a gwirfoddol allweddol eraill.
3. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono.
4. Sicrhau bod dulliau priodol a chadarn ar waith i dderbyn adborth a chwynion o ran CCUHP.
5. Sicrhau cydymffurfio â dyletswydd sylw dyladwy CCUHP, ei atebolrwydd a'i effaith, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
6. Caiff yr adroddiad cynnydd cyntaf ar y ddyletswydd sylw dyledus ar gyfer gwreiddio'r CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol ei gynhyrchu ym mis Medi 2015 ac mae'n cyfeirio amcanion yn y cynllun gweithredu blynyddol.

Mae Hawliau Plant bellach wedi'u hymgorffori'n llawn yn y broses AEC yn Ninas a Sir Abertawe ac rydym bellach yn gweithio ar wreiddio'r CCUHP yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd yn ofynnol i bob maes gwasanaeth bennu o leiaf tri amcan CCUHP, gyda ffocws ar:

1. Hyfforddiant a gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o'r CCUHP ym mhob maes gwasanaeth
2. Hyrwyddo'r CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono ym mhob maes gwasanaeth drwy wneud y cysylltiad pendant â'r erthyglau perthnasol a defnyddio "Dilly". (Y logo hawliau plant ar gyfer Abertawe)
3. Cydymffurfio â'r broses AEC.

#### 5.12 Cydlyniant Cymunedol

Mae'r cynllun cyflawni lleol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol wedi'i ddiweddarau yn unol â gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein Grŵp Arweinyddiaeth yn parhau i sicrhau cynnydd a monitro. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 (gweler Amcan 16).

### 5.13 Tlodi

Mae mynd i'r afael â thlodi'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor a, chan ddatblygu gwaith blaenorol y Fforwm Tlodi, mabwysiadwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi gan y cyngor llawn ar 4 Tachwedd 2014. Y prif themâu yn y strategaeth newydd yw:

- Grymuso pobl leol
- Newid diwylliannau
- Targedu adnoddau.

Ceir cynllun gweithredu clir ar gyfer y cyngor wedi'i rannu yn ôl y tair thema hyn, ynghyd â fframwaith rheoli perfformiad sy'n cynnwys amcanion a mesurau Cynllun Un Abertawe, gyda thargedau ar gyfer 2017 a 2020, yn ogystal â rhaglenni gwaith y cyfeirir atynt ar draws y cyngor a'n partneriaid. Mae trefniadau ar waith ar gyfer meysydd gwasanaeth ar draws DASA i nodi'r cam gweithredu y byddant yn ei gymryd sy'n cyfrannu at yr agenda trechu tlodi o fewn y broses cynllunio busnes. Bydd hyn yn darparu pwynt cyfeirio i fonitro gweithgarwch ar draws y sefydliad.

### 5.14 Diwygiadau Lles

Yn dilyn gwaith blaenorol i liniaru effaith negyddol y Diwygiadau Lles, mae'r ffocws cyfredol yn dal i fod ar barodrwydd cenedlaethol i gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Mae gweithgareddau presennol yn cynnwys:

- 7 seminar a gyflwynwyd i staff rheng flaen ar draws DASA a sefydliadau partner i sicrhau lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol. Caiff seminarau eraill eu cyflwyno cyn rhoi Credyd Cynhwysol ar waith yn Abertawe ar 20 Gorffennaf 2015.
- Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol, grŵp amlasiantaeth o ddarparwyr gwasanaethau, yn datblygu cynllun gweithredu sy'n ymdrin yn benodol â meysydd lle mae angen yn debygol. Bydd gwaith y grŵp hwn yn bwydo i mewn i waith ehangach y Fforwm Tlodi.
- Sicrhau y darperir cefnogaeth Digidol yn Ddiofyn ar gyfer dinasyddion Abertawe.
- Mae cydweithwyr yn yr Adran Tai yn proffilio tenantiaid i nodi'r rhai y mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt pan gaiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno yn Abertawe.

### 5.15 Cam-drin yn y Cartref

Agorodd Siop dan yr Unto cam-drin yn y cartref Abertawe ym mis Mawrth 2015 ac fe'i defnyddiwyd gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn parhau i godi'n raddol, ac felly hefyd nifer y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth galw heibio, cymorthfeydd cyfreithiol, tai chi, rhaglen feithrin ac amrywiaeth o rai eraill. Mae presenoldeb amlasiantaeth yn y ganolfan i ddarparu ymagwedd gyfannol at wasanaethau.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar waith ar Wobr Tref y Rhuban Wen am ein cyflawniadau yn ein gwaith aml-asiantaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod ar ei holl ffurfiau. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gynnwys dynion a bechgyn er mwyn rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Rydym yn

parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cam-drin yn y cartref yn enwedig yn ystod digwyddiadau'r Rhuban Wen ym mis Tachwedd.

Mae hyfforddi staff yn parhau'n flaenoriaeth ac yn cael ei gyflwyno ar draws nifer o adrannau eleni i sicrhau gwasanaeth cyfartal i unrhyw un sy'n profi cam-drin yn y cartref.

#### 5.16 Cynllunio busnes

Mae proses cynllunio busnes y cyngor yn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad cymdeithasol trwy becyn cymorth sy'n cynghori rheolwyr ar y prosesau a'r cynlluniau gweithredu sydd ar waith (e.e. Amcanion Cydraddoldeb a'r broses AEC).

#### 5.17 Hyfforddiant

Mae rhai o'r gweithgareddau hyfforddiant y mae aelodau a swyddogion wedi'u cyflawni eleni wedi cynnwys:

- Gwrthgaethwasiaeth/ymwybyddiaeth o fasnachu pobl
- Ymwybyddiaeth o droseddau casineb
- Ymwybyddiaeth o sipsiwn a theithwyr
- Ymwybyddiaeth o bobl Roma

#### 5.18 Fersiwn hawdd ei darllen

Y llynedd cyhoeddwyd ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad Llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod gwybodaeth mor hawdd cael hyd ati â phosib.

#### 5.19 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)

O ganlyniad i'n haelodaeth partneriaeth WITS, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Y pum iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn 2014 - 2015 oedd:

1. Fietnameg
2. Pwyleg
3. Rwmaneg
4. Iaith Arwyddion Prydain
5. Lithwaneg

Mae gwaith wedi parhau ar beilot Sign Translate ar gyfer ein canolfan gyswllt, lle bydd modd i bobl sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith gyntaf gael dehongliad uniongyrchol trwy we-ddolen fideo. Bu'r adborth cychwynnol yn galonogol iawn.

#### 5.20 Y Gronfa Newid

Trwy'r Gronfa Newid, cafodd 17 o sefydliadau mawr a bach eu cefnogi'n ariannol trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws dinas

a sir Abertawe. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig, neu'n cynrychioli eu diddordebau.

#### 5.21 Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi darparu arian grant o 1 Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth(au) cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i ddau sefydliad i weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot; comisiynwyd y cynllun peilot hwn ar gyfer 2014/15 a darparwyd cyllideb i barhau â'r prosiect ar gyfer 2015/16.

### **6. Sylwadau cloi**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn gyntaf ein CCS. Gwneir cynnydd o hyd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w chyflwyno, ymhell y tu hwnt i'n Hamcanion Cydraddoldeb. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

Wrth i ni ganolbwyntio ar flwyddyn olaf y cynllun hwn, byddwn yn datblygu CCS diwygiedig yn barod ar gyfer 2016, a fydd yn cynnwys Amcanion Cydraddoldeb newydd a/neu barhaus.

## Atodiad 1

### Amcanion Cydraddoldeb

#### Amcan Cydraddoldeb – Ymgynghori a Chynnwys

Amcan Cydraddoldeb 1		
Sicrhau bod ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Corfforaethol		
Rhoi Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys newydd ar waith	Mawrth 2016	<b>Ar waith:</b> Mae Craffu wedi ymchwilio i Gynnwys y Cyhoedd. Caiff canlyniadau hyn eu defnyddio i gyfeirio'r strategaeth newydd. Ar ôl ei llunio, byddwn yn dilyn y broses arferol o fabwysiadu'r strategaeth (gan gynnwys cynnal ymgynghoriad a cheisio cymeradwyaeth gan y cyngor llawn) erbyn mis Mawrth 2016.
Adrannol		
Adfywio Economaidd a Chynllunio		
Sefydlu grŵp swyddogion penodol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a'r Adran Adfywio Economaidd a Chynllunio er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb allweddol sy'n codi o'r ymgynghori ar y rhaglenni gwaith parhaus. <ul style="list-style-type: none"> <li>▫ Cyflwyno o leiaf 3 sesiwn grŵp swyddogion y flwyddyn;</li> <li>▫ Defnyddio'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb fel fforwm i ymgynghori ar raglenni gwaith allweddol</li> </ul>	Mawrth 2013 ac yn parhau	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> O ran y camau gweithredoedd cysylltiedig a sefydlwyd: <ul style="list-style-type: none"> <li>▫ Yn dilyn trafodaethau â chynrychiolwyr o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau ac i gydnabod y camau mawr a wnaed wrth wella cyfathrebu cyffredinol ac arferion gweithio rhwng y ddau faes gwasanaeth, cytunwyd na fyddai angen cynnal sesiwn Grŵp Swyddogion ffurfiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth symud ymlaen, cytunwyd y byddai sesiynau Grŵp Swyddogion y dyfodol yn cael eu cynnal yn ôl y galw e.e. mewn ymateb i newidiadau sylweddol mewn arweiniad neu ddeddfwriaeth yn hytrach na chynnal sesiynau blynyddol, strwythuredig. Serch hynny, gall</li> </ul>

<p>parhaus/sydd ar ddod;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▫ Sicrhau cyfathrebu ymatebol a pharhaus rhwng cynrychiolwyr o grwpiau swyddogion a rhanddeiliaid;</li> <li>▫ Nodi materion cydraddoldeb ac ymatebion posib a fydd yn helpu i wella cyflwyno rhaglenni gwaith parhaus.</li> </ul>		<p>cynrychiolydd o'r grŵp alw cyfarfod o hyd ar unrhyw adeg, gan sicrhau felly bod yr ymagwedd a fabwysiedir yn ymateb i anghenion aelodau unigol y grŵp a hefyd yn ymateb i newid. Mae cynrychiolwyr bellach yn fwy parod i gyfathrebu â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau yn uniongyrchol ac yn anffurfiol drwy gydol y flwyddyn yn unigol, a chynigir bod yr ymagwedd hon yn cael ei chynnal. Ar ben hynny, mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau bellach yn anfon yr holl wybodaeth berthnasol a gwybodaeth am gynnydd ymlaen at aelod dynodedig o'r grŵp sydd wedyn yn dosbarthu'r wybodaeth i bob swyddog perthnasol yn y maes gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▫ Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb wedi cael ei ddisodli'n raddol gan amrywiaeth o fforymau sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a sefydliadau cymunedol e.e. Y Grŵp Cydgysylltu Anabledau (GCA). Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth fwy penodol ac uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o fforymau. Er enghraifft, wrth ystyried proses y Cynllun Datblygu Lleol, mae cynrychiolydd o'r Tîm Polisi Cynllunio wedi rhoi cyflwyniadau a chyflwyno sesiynau cwestiwn ac ateb o'r blaen ar gyfnodau allweddol paratoi'r cynllun i'r grŵp. Bydd y fath sesiynau'n parhau yn ôl yr angen.</li> <li>▫ Mae gwneud hyn wedi sicrhau cyfathrebu ymatebol a pharhaus rhwng swyddogion a fforymau sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a sefydliadau cymunedol. Roedd hyn yn gyfle i ystyried materion ymhellach gan arwain at gyflwyno sylwadau ffurfiol i ymgynghoriadau. Cytunwyd y byddai swyddogion yn sicrhau y byddai sylw'r grŵp yn cael ei dynnu at unrhyw raglenni gwaith sydd o ddiddordeb a byddai'r grŵp yn gwahodd swyddogion i sesiynau unigol yn y dyfodol. Cyfathrebwyd yn anffurfiol hefyd a thrwy hyn, amlygwyd cynigion datblygu penodol ac fe'u</li> </ul>
---	--	---

		<p>trafodwyd ymhellach.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▫ Proses barhaus yw nodi problemau cydraddoldeb mewn rhaglenni gwaith. Yn ogystal, mae cyfleoedd hyfforddiant penodol sy'n seiliedig ar gydraddoldeb bellach yn cael eu cyfeirio at swyddogion arbenigol priodol ar unwaith e.e. Hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig. Ar ben hynny, mae aelod o'r Grŵp Swyddogion bellach yn cynrychioli'r maes gwasanaeth ar nifer o feysydd pwnc cydraddoldeb trawsbynciol e.e. cyfrannu at gynhyrchu Cynllun Heneiddio'n Dda lleol, cymryd rhan mewn Grŵp Rhoi Hawliau Plant ar Waith (fel rhan o ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a dod yn Hyrwyddwyr y Gymraeg dynodedig y maes gwasanaeth.</li> </ul>
<b>Diwylliant a Thwristiaeth</b>		
Cysylltu â fforymau/grwpiau trawsrywiol i drafod datblygiadau'r gwasanaeth	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Yn dilyn ymgynghoriad, adolygu'r dichonolrwydd a'r dewisiadau er mwyn darparu gweithgareddau ychwanegol ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth sydd o ddiddordeb i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (BME).	Mawrth 2016	<p><b>Ar waith:</b> Symudwyd hyn ymlaen i 2013-14 ond nis cyflawnwyd oherwydd y daeth swydd y swyddog ymgynghori i ben o ganlyniad i arbedion cyllidebol yn 2014/15. Er mwyn datblygu, bydd gwasanaethau'n treialu dull arall o ymgynghori'n uniongyrchol â'r Fforwm BME, sy'n esbonio'r newid i'r dyddiad cau.</p>
Sefydlu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer digwyddiadau mawr a pharhau i ymgynghori â SAFE a	Mawrth 2013 ac yn parhau	<p><b>Ar waith:</b> Bydd digwyddiadau pwysig yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth eu trefnu. Dechreuodd hyn gyda Gwledd y Gaeaf ar y Glannau</p>

Fforwm Anableddau Abertawe.		<p>ym mis Tachwedd 2012 (a gwblhawyd ac sy'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol).</p> <p>Mae asesu cychwynnol eisoes wedi dangos bod angen cynnal mwy o ymchwil i bwy sy'n mynd i'r digwyddiadau hyn. Mae hyn yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd gyda'r adran Farchnata, ond bydd y gwaith y gellir ei wneud yn dibynnu yn y pen draw ar y gyllideb.</p> <p>Mae'r Tîm Digwyddiadau'n parhau i ymgynghori â Mynediad i Bawb Abertawe (SAFE), yn benodol ynglŷn â digwyddiadau mawr.</p>
Ymgynghori â fforymau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) i nodi unrhyw rwystrau posib i gyfranogi.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Tai		
Datblygu, drafftio, hysbysebu ac ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol wedi'i diweddarau.	Ebrill 2012 ac yn barhaus	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p> <p><b>Gwybodaeth ychwanegol:</b></p> <p>Cymeradwywyd yr SCTLI bresennol gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2011. Cychwynnodd adolygiad o'r strategaeth nesaf yn yr hydref 2014 a disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2015. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid wedi cynnwys holiadur, sesiynau galw heibio a digwyddiadau wyneb yn wyneb. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio pecyn meddalwedd newydd sy'n coladu adborth dienw ar y mater. Mae hyn yn galluogi'r holl bobl sy'n mynd i gyfarfodydd i gymryd rhan h.y. ni waeth beth yw eu lefel llythrennedd neu eu hamharodrwydd i leisio barn yn y maes cyhoeddus.</p>

### Amcan Cydraddoldeb – Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

#### Amcan Cydraddoldeb 2

Cynyddu ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflwyno rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb ac

<b>amrywiaeth well wedi'i diweddarau</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
<b>Corfforaethol</b>		
Adolygu'r deunydd a'r adnoddau hyfforddi sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb a hyfforddiant AEC	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Ystyried datblygiadau darpariaeth hyfforddi e-ddysgu/dysgu cyfunol sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac AEC	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
I ddechrau, bydd staff allweddol - ond, yn y pen draw, y staff cyfan - yn derbyn hyfforddiant gorfodol am Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Parhaol	<b>Parhaol:</b> Mae nifer o raglenni hyfforddi sy'n ymwneud â datblygu cydraddoldeb (pwrpasol a chyffredinol) wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ers cyflwyno'r ddeddf er mwyn i staff fanteisio arnynt, a hynny'n wyneb yn wyneb a thrwy e-Ddysgu. Mae'r cwrs Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chydraddoldeb wedi'i rannu'n ddau gwrs gwahanol. Rydym bellach yn gallu bydd cynnal y cwrs cydraddoldeb (y fersiynau e-Ddysgu ac wyneb yn wyneb) fel cwrs gorfodol i bob rheolwr ac aelod o staff. Fodd bynnag, bydd llwyddiant hyn yn dibynnu ar ddiffinio'r cwrs hwn yn orfodol gan Grŵp y Cyfarwyddwyr. Cyfathrebu mewnol a'r broses gyflwyno wedi cychwyn
Bydd pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gweithdrefnau AEC (lle bo hynny'n briodol)	Parhaol	<b>Parhaol:</b> Fel gyda'r staff cyffredinol, mae nifer o raglenni hyfforddi sy'n ymwneud â datblygu cydraddoldeb wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno er mwyn i reolwyr fanteisio arnynt, a hynny'n wyneb yn wyneb neu drwy e-Ddysgu.  Cynhelir mwy o hyfforddiant i reolwyr fel yr amlinellwyd uchod.
Sicrhau bod pob cwrs hyfforddiant, gan	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>

gynnwys y cwrs sefydlu corfforaethol, yn adlewyrchu'r rheoliadau cydraddoldeb a'r arfer gorau diweddaraf		
Sicrhau y caiff hyfforddiant corfforaethol ei fonitro i adlewyrchu'r presenoldeb ar bob cwrs hyfforddiant corfforaethol yn gywir	Parhaol	<b>Parhaol</b> Yn dilyn cyflwyno'r system rheoli dysgu newydd yn ISIS, mae ceisiadau pob cynrychiolydd yn gysylltiedig â'u cofnodion personél canolog. Mae hyn yn galluogi asesiad presenoldeb llawn gan yr holl nodweddion gwarchoddedig. D.S. Sylwer bod yr uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod cofnodion ISIS wedi'u diweddarau a bod gweithwyr wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb a ddisbarthwyd gan AD yn 2013.
Adolygu canllawiau Gwasanaethau Cwsmeriaid (o ran y rhannau hynny'n sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth) a hyrwyddo'r ddau eto yn y cyngor ac yn allanol.	Ebrill 2013	<b>Ar waith:</b> Cynhaliwyd gwiriad AEC fel rhan o'r adroddiad a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet ar 1 Gorffennaf, gan amlinellu strategaeth newydd ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid. Caiff rhagor o AEC manwl eu cwblhau ar gyfer datblygiadau newydd.
Datblygu'r wybodaeth a'r data sy'n ymwneud â'r holl nodweddion gwarchoddedig a chadw darlun demograffig cadarn o ddinas a sir Abertawe	Parhaol	<b>Ar waith:</b> Mae dadansoddiad y cyngor o nodweddion gwarchoddedig yn Ninas a Sir Abertawe wedi'i gynnal a'i ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwybodaeth ddemograffig ychwanegol a chyfoes wedi'i darparu i ddefnyddwyr amrywiol (mewnol/allanol) a'i lledaenu drwy wedudalen <a href="#">ystadegau</a> y cyngor. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys darparu data economiadd-gymdeithasol lleol 1 <a href="#">Gyfrifiad</a> 2011, gan gynnwys proffiliau ystadegol Cyfrifiad 2011 ar gyfer wardiau, ardaloedd etholaethol ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, ac adroddiadau pwnc eraill - yn fwyaf diweddar, "Cyfrifiad 2011: Sgiliau Iaith Gymraeg". Mae proffil wedi'i ddiweddarau a data dangosydd ar amrywiaeth o faterion hefyd wedi'u cynnwys yn

		<p>nhrydydd <a href="#">Asesiad o Anghenion Strategol Un Abertawe (2014)</a>, wedi'i lunio ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan Grŵp Ymchwil y BGLI, gyda'r asesiad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd 2015. Cyhoeddwyd fersiynau diweddaraf <a href="#">proffiliau ward</a> Abertawe, gan gynnwys data wedi'i ddiweddarau lle bônt ar gael, ym mis Mawrth 2015. Crëwyd proffiliau newydd ar gyfer y pum ardal <a href="#">Cymunedau'n Gyntaf</a> yn Abertawe ar yr adeg hon hefyd. Bwriedir cynnal dadansoddiad manwl ychwanegol a monitro data nodweddiol gwarchoddedig, gan gynnwys ar gyfer ardaloedd lleol, yn ystod 2015 a'r tu hwnt, fel rhan o waith y cyngor ar gydlyniant cymunedol, ond bydd ganddo ddefnydd a manteision ehangach.</p>
<p><b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b></p>		
<p>Cyflwyno'r Rhaglen Ddysgu Cynhwysiad Cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth staff ar draws DASA o'r materion sy'n wynebu unigolion a grwpiau sy'n profi dieithrio oherwydd tlodi incwm, gwasanaeth a chyfranogi</p>	<p>Dechrau mis Ebrill 2012</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>  Ailstrwythurwyd yr hyfforddiant hwn i adlewyrchu'r ymrwymiad a wnaed gan y Cabinet i ganolbwyntio adnoddau ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Abertawe. Mae wardiau Townhill a Phenderi a rhan o Ward y Castell bellach yn Ardaloedd Targed T1 a'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf eraill yw T2.</p> <p>Cafodd yr hyfforddiant Mynd i'r Afael â Thlodi yn Abertawe diwygiedig ei dreialu yn ardal Townhill yn Abertawe ym misoedd Medi a Hydref 2013. Y targed oedd hyfforddi 80 aelod o staff mewn 4 wythnos.</p> <p>Cynhaliwyd sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth ½ diwrnod ar gyfer rheolwyr. Roedd 54 person yn bresennol.  Cynhaliwyd 4 cwrs deuddydd ar gyfer staff rheng flaen a datblygu polisi. Roedd 59 person yn bresennol.</p>

		<p>Cyfanswm o 113 o bobl.</p> <p>Mae adroddiad am y peilot ar gael ar gais; mae angen gwneud mwy o waith er mwyn parhau i gyflwyno hyn yn sgîl llwyddiant y peilot. Serch hynny, mae adnoddau'n brin.</p>
<p>Darparu llinell gyngor hawliau lles am 3 diwrnod yr wythnos i gefnogi staff a sefydliadau partner DASA wrth gyd-drafod y newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau yn sgîl diwygio'r system lles</p>	<p>Parhaus</p>	<p><b>Ar waith:</b>  Nifer y sesiynau llinell gyngor a gynhaliwyd yn 2014/15 oedd 242, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol sef 277. Roedd hyn yn rhannol oherwydd rhoddwyd terfyn ar dreialu sesiwn gyngor galw heibio yn y Ganolfan Gyswilt ym mis Tachwedd 2014.</p> <p>Dyma rai o'r gweithgareddau eraill a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn:  142 o apwyntiadau wyneb yn wyneb i weithwyr cefnogi a'u cleientiaid  26 o gyrsiau hyfforddi a oedd yn ymwneud â budd-daliadau wedi'u cyflwyno i 238 o gyfranogwyr.  7 seminar Credyd Cynhwysol wedi'u cynnal, yr aeth 450 o bobl iddynt.  54 o apeliadau budd-daliadau wedi'u cyflwyno i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.  Codwyd £838,088.94 i sicrhau hawliadau budd-dal heb eu bodloni'n flaenorol</p>
<p>Parhau â'r rhaglen o fforymau anffurfiol i staff yn ystod yr awr ginio i gynyddu'r ymwybyddiaeth o bob mater sy'n ymwneud â chydraddoldeb.</p>	<p>O leiaf ddwywaith y flwyddyn.</p>	<p><b>Ar waith:</b>  Trefnwyd amserlen o sioeau teithiol (bob deufis) ar gyfer 2105/16 i alluogi'r holl staff i gael gwybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yr ymgynghoriadau ar bob adran a'r codau ymarfer drafft. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau Abertawe i'w rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2016, a byddant yn helpu i nodi unrhyw fylchau a materion cydraddoldeb a</p>

<p>Ymchwilio i'r cyfleoedd i gysylltu â mentrau hyfforddi corfforaethol a chynllunio a datblygu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n briodol i anghenion staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	<p>Rhagfyr 2012</p>	<p>all godi.</p> <p><b>Ar waith:</b>  Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr uned hyfforddiant corfforaethol i fodloni blaenoriaethau strategol a nodi bylchau a phwysau gwasanaeth. Rydym yn parhau i adlewyrchu holl agweddau ar yr agenda gydraddoldeb o fewn cynlluniau hyfforddi sy'n benodol i'r gwasanaeth, ac o fewn yr holl gyrsiau y mae'r staff yn eu dilyn fel rhan o'u rôl gorfforaethol, eu rôl gofal cymdeithasol neu i fodloni rhwymedigaethau datblygiad proffesiynol parhaus.</p> <p>Gall staff y Gwasanaethau Cymdeithasol gael mynediad i hyfforddiant corfforaethol ar gydraddoldeb drwy'r Gronfa Ddysgu a gallant hefyd gael mynediad i amrywiaeth o fodiwlau e-ddysgu sydd ar gael drwy StaffNet.</p> <p>Cafwyd enghraifft dda o ddatblygu ar y cyd o fewn diogelu corfforaethol. Mae cynyddu ymwybyddiaeth ac anghenion hyfforddi ehangach wedi'u nodi ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Abertawe.</p> <p>Ers yr adolygiad, mae Abertawe wedi rhoi pecynnau e-ddysgu gorfodol ar waith sy'n cynnwys Diogelu Oedolion a Diogelu ac Amddiffyn Plant Diamddiffyn.</p> <p>Yn ogystal, gall staff gael mynediad i nifer o gyrsiau sy'n benodol i'r agenda gydraddoldeb, megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ac Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb drwy'r Gronfa Ddysgu. Hefyd, adlewyrchir 'cydraddoldeb' yn yr holl weithgareddau priodol y mae staff yn ymgymryd â hwy, fel rhan o'u rhwymedigaethau DPP gofal cymdeithasol.</p>
---	---------------------	---

		<p>Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sesiynau Sefydlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys cydraddoldeb a pholisi iaith Gymraeg y cyngor.</li> <li>• sesiwn sy'n benodol i rôl am yr elfennau cydraddoldeb a gynhwysir o fewn hyfforddiant a ddarperir i staff gofal cymdeithasol newydd o fewn staff gofal cartref mewnol ac i ofalwyr maeth</li> <li>• Mae cydraddoldeb, gwerthoedd ac egwyddorion yn rhan annatod o lawer o'r cyrsiau hyfforddiant cyfredol e.e. Diplomas FfCCh, Deddf Galluedd Meddyliol (MAC), Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS), Ailallugoi, Cynllunio Gofal etc.</li> </ul> <p>Caiff darpariaeth a'r hyn a gaiff ei gynnwys yn y dyfodol eu hadolygu fel rhan o gynllunio Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2015-16.</p>
<b>Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GA ac EC)</b>		
Briffio ar gyfer Rheolwyr	Ebrill 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Mae pob gweithiwr y GA ac EC yn cael hyfforddiant wedi'i ddiweddarau.	Mawrth 2013	
<b>Amgylchedd</b>		
Datblygu canllawiau ar gyfer staff toiledau cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion hunaniaeth rhyw.	Yn cael ei adolygu bob chwe mis.	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwylliant a Thwristiaeth</b>		
Sicrhau bod holl staff gwasanaethau	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>

diwylliant a thwristiaeth yn ymwybodol o bolisi bwydo ar y fron y cyngor.		
Datblygu a chyflwyno arweiniad ar drawsrywiaeth ar gyfer holl wasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth. I fod yn berthnasol hefyd i staff gwirfoddol adeiladu cymunedol.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Tai ac Adfywio Cymunedau</b>		
Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith staff yn y llyfryn sefydlu ar-lein a'r llawlyfr gwybodaeth gwasanaethau i gwsmeriaid	Ebrill 2012 ac yn barhaus	<b>Wedi'i gwblhau</b> Parheir i ddiweddarau'r llyfryn sefydlu ar-lein a'r Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid gyda newidiadau perthnasol e.e. rhestr siaradwyr Cymraeg staff, Safonau newydd y Gymraeg etc. Hefyd, caiff ei hyrwyddo'n rheolaidd yn y Daflen Gwybodaeth Tîm.
Parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer holl staff Tai ac Amddiffyn y Cyhoedd gan ei ddiweddarau a'i fonitro'n rheolaidd	Ebrill 2012 (parhaus, yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Mae staff yn parhau i fynd i gyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb er mwyn diweddarau eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol. Yn ogystal, mae hyfforddiant cydraddoldeb wedi cael ei ddarparu i denantiaid sy'n cyfranogi, ac mae hyfforddiant ychwanegol yn debygol yn y flwyddyn nesaf.  Mae Swyddogion Hyfforddi, mewn partneriaeth â staff Adfywio Cymunedau, yn helpu darparwr allanol i gyflwyno rhaglen hyfforddiant beilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar Ymwybyddiaeth o Sipsiwn a Theithwyr. Caiff ei chyflwyno i staff allweddol Tai a'r GIG yn Abertawe ac ar draws de Cymru yn y 2 flynedd nesaf.  Mae'r Swyddog Cyfranogiad ar gyfer Tai wedi cwblhau cwrs hyfforddi

		<p>achrededig Lefel 1 Iaith Arwyddion Prydain ac mae'n gobeithio symud ymlaen i Lefel 2 y cymhwyster hwn.</p> <p>Caiff cyrsiau cydraddoldeb (gan gynnwys e-ddysgu) eu hyrwyddo'n rheolaidd ar y Daflen Gwybodaeth Tîm e.e. cwrs e-ddysgu Troseddau Casineb, cwrs IAP, cwrs e-ddysgu Cydraddoldeb.</p>
--	--	---

### Amcanion Cydraddoldeb – Adnoddau Dynol

<b>Amcan Cydraddoldeb 3</b>		
<b>Adolygu'r holl bolisiau AD, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Adolygu polisiau AD trwy'r Gweithgor Undebau Llafur	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Llunio llawlyfr staff ar y we a fydd yn cynnwys polisiau AD, amodau a thelerau, a gwybodaeth i staff ynglŷn â'r Ddeddf Cydraddoldeb	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Wedi hynny, adolygu polisiau AD yn flynyddol	Medi 2013	<b>Ar waith:</b> I'w adolygu ym mis Ebrill 2015.
Briffio rheolwyr am bolisiau AD allweddol	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>

<b>Amcan Cydraddoldeb 4</b>		
<b>Cyrraedd Lefel Aur Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Cyflwyno cais ar ran DASA am asesiad yn erbyn y Lefel Aur	Gorffennaf 2012	<b>Ar waith:</b> Polisi Anhwylderau Cyhyrysgerbydol i ymgynghori arno Mai 15 Gwaith i ddiweddarau'r Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau

		Diwygiadau Gwerthu Iach yn gyfredol. Arweinydd y Cynllun Teithio i'w gadarnhau Diwygiadau Gwerth Craidd i'w cadarnhau Asesiad llawn i'w gadarnhau (amcan. mis Awst)
Cyflwyno arolwg agwedd/lles gweithwyr.	Mawrth 2013	<b>Ar waith:</b> Wedi'i fabwysiadu i adborth hyfforddiant (Ion 15) Cronfa ddata wedi'i datblygu (cwblhawyd Ebrill 15) <b>(Bydd yr arolwg yn parhau'n gyfredol)</b>
Adolygu'r polisi cyffuriau ac alcohol.	Gorffennaf 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Mabwysiadu gwerthoedd craidd ar gyfer iechyd a lles gweithwyr.	Gorffennaf 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Llunio polisi gwerthu iach a sicrhau bod peiriannau bwyd iach yn y prif adeiladau.	Gorffennaf 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>

#### Amcan Cydraddoldeb 5

##### Sicrhau bod cyfle gan bawb yn y gymuned geisio am swydd gyda'r cyngor

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Ennill achrediad y symbol anabledd (Cynllun Tic Dwbl)	Ebrill 2013	<b>Ar waith:</b> Mae gwaith yn parhau gyda Chanolfan Byd Gwaith gyda'r nod o gael achrediad a gwella'r gwasanaeth i ymgeiswyr a gweithwyr anabl.

#### Amcan Cydraddoldeb 6

##### Creu system cyflog a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb a fydd yn ymdrin ag unrhyw wahaniaethau cyflog presennol rhwng y rhywiau ynghyd ag amodau a thelerau ariannol cyflogaeth tryloyw sydd wedi'u cydweddu

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Parhau i ymgynghori ag undebau llafur er mwyn datblygu system cyflog a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>

cydraddoldeb		
Parhau i ymgynghori â'r undebau llafur i gydweddu a moderneiddio amodau a thelerau	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>

<b>Amcan Cydraddoldeb 7</b>		
<b>Cydymffurfio â'n dyletswydd i gyhoeddi Data Gweithlu/Gwybodaeth am Gyflogaeth</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Datblygu ein system ISIS AD i gofnodi manylion y nodweddion gwarchoddedig	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cynnal arolwg staff i gasglu data am y nodweddion gwarchoddedig a sgiliau iaith	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cyhoeddi'r wybodaeth am gyflogaeth yn unol â'n dyletswydd.	Mawrth 2013 ac yn flynyddol	<b>Ei gwblhau bob blwyddyn</b>
Dadansoddi'r data uchod i nodi materion allweddol i'r awdurdod	Gorffennaf 2013	<b>Ymgwymerir â hyn bob blwyddyn</b>

#### **Amcan Cydraddoldeb – Mynediad i Wasanaethau**

<b>Amcan Cydraddoldeb 8</b>		
<b>Gwella mynediad i wasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl anabl/fyddar</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Nodi materion mynediad penodol i bobl B/byddar yng Nghanolfan Gyswllt y cyngor.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Cynhaliwyd cynllun peilot o Sign Translate yn y Ganolfan Gyswllt sy'n galluogi pobl sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn iaith gyntaf i gael cyfieithiad uniongyrchol trwy ddolen fideo. Parhaodd y gwasanaeth hwn yn ystod 2014-15.

## Amcanion Cydraddoldeb – Addysg

Amcan Cydraddoldeb 9		
Gwella perfformiad dysgwyr lleiafrifoedd ethnig ar lefel TGAU.		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion.	Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref.	<p><b>Ar waith:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn 2014, roedd plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol yn perfformio cystal â disgyblion eraill yn Abertawe yn y Cyfnod Sylfaen (Dangosydd Cyfnod Sylfaen), CA2 a CA3 (Dangosyddion Pwnc Craidd).</li> <li>Yn 2014, roedd plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn perfformio'n sylweddol well na'u cyfoedion yn Abertawe ar Lefel 2 gynhwysol (+ 8.0%).</li> </ul>
Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd Asiaidd/Bangladeshaid yn cyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion.	Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref.	<p><b>Ar waith:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn 2014, roedd plant o gefndiroedd Asiaidd Bangladeshaid yn perfformio'n well na'u holl gyfoedion yn Abertawe yn Nangosydd y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o <b>1.5</b> pwynt, o <b>+ 2.0</b> bwynt yn CA2 ac o <b>+0.3</b> pwynt yn CA3. (DPC).</li> <li>Yn 2014, roedd plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 hefyd yn perfformio'n well na'u holl gyfoedion yn Abertawe yn Nhrothwy Lefel 2 o <b>+8.2</b> pwynt.</li> </ul>

Amcan Cydraddoldeb 10		
Cau'r bwlch perfformiad mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched.		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Cynnal tueddiadau gwellhaol wrth asesu bechgyn a merched yn CA2 a CA3	Parhaol	<p><b>Ar waith:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Dangosyddion Pwnc Craidd yn CA2 a CA3 ar gyfer yr holl ddisgyblion yn cynnal tuedd ar i fyny.</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• DPC CA2 – canlyniadau wedi cynyddu 9.9%, rhwng 2010 a 2014 ac roedd perfformiad 2014 wedi gwella 3.04% ers y flwyddyn flaenorol.</li> <li>• DPC CA3 – canlyniadau wedi cynyddu 19.02% rhwng 2010 a 2014, gyda chanlyniadau 2014 wedi cynyddu 4.15% o'u cymharu â 2013.</li> </ul>
Cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched	Parhaol	<p><b>Ar waith:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bwlch rhyw DPC CA2 – tua 7-8% yn gyson. Mae bechgyn wedi gwella 9.1% a'r merched 10.8% ers 2010.</li> <li>• Bwlch rhyw DPC CA2 - wedi lleihau o 12.8% ar ei uchaf yn 2011 i 5.8% yn 2014 sy'n 3% yn well na Chymru.</li> <li>• Mae bechgyn a merched yn dangos gwelliant sylweddol yn y DPC yn CA3 ers 2010. Mae merched yn dal i berfformio'n well na bechgyn, ond mae bechgyn wedi gwella 20.69% a merched wedi gwella 17.42%</li> </ul> <p>Yn Saesneg dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng y rhywiau wedi lleihau ychydig yn CA2, o ffigur a fu ar ei uchaf ers 5 mlynedd yn 2013. Mae'r bwlch wedi cau'n sylweddol yn CA3 i 7.09% sy'n llai na hanner y gwerth yn 2011 (15.65%).</p>

### Amcan Cydraddoldeb 11

#### Gwella perfformiad addysgol plant Sipsiwn a Theithwyr

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Parhau i feddwl am ffyrdd o wella cyfraddau presenoldeb plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd er mwyn gwella'u cyrhaeddiad	Parhaol	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr (GAT) yn Y Tŷ Dysgu – Campws Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed.</p> <p>Mae GAT yn gwneud pob ymdrech i geisio cynnwys plant a phobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, oherwydd pryderon</p>

		<p>rhieni a gwerthoedd diwylliannol, yn y rhan fwyaf o achosion yn CA3 a 4, mae'n anodd cyflawni presenoldeb llawn. Cynigir mynediad llawn i'r holl bobl ifanc i ysgolion uwchradd yn eu cymuned.</p> <p>Rydym wedi cynyddu nifer yr oriau y mae pobl ifanc yn cael eu haddysgu o fewn oriau'r ysgol ac mae hyn wedi cael ei gefnogi gan fwy o achrediad academaidd a galwedigaethol.</p> <p>Mae presenoldeb a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr wedi gwella dros y 12 mis diwethaf.</p>
--	--	---

### Amcan Cydraddoldeb 12

#### Gwella ymwybyddiaeth yr holl blant a phobl ifanc o wybodaeth allweddol am dueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Sicrhau y caiff ysgolion eu cyfeirio at arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft darpariaeth gwrsela ac arfer da o ran materion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT).	Parhaus - fel y caiff arweiniad ei roi	<b>Ar waith:</b> Dosbarthwyd yr holl arweiniad gan Lywodraeth Cymru i ysgolion trwy e-bost a'i osod ar dudalen benodol gwefan mewnwyd y cyngor.

### Amcan Cydraddoldeb 13

#### Gwella mynediad disgyblion ag anabledd corfforol i addysg.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Parhau i wella isadeiledd mewn ysgolion er mwyn gwella hygyrchedd	Parhaus	<b>Ar waith:</b> Mae'r Rhaglen AoS yn parhau i wella mynediad i isadeiledd mewn ysgolion.
Ymgyrchu dros ailosod y cyllid cyfalaf Môn Addasiadau i ddarparu ar gyfer	Parhaus	<b>Ar waith:</b> Nid yw lleihau cyllidebau'n caniatáu i'r cyllid hwn gael ei ailosod ar

anghenion unigol plant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion.		hyn o bryd; fodd bynnag, mae pob mân addasiad yn cael ei wneud mewn ysgolion yn ôl yr angen i sicrhau bod anghenion unigol plant a phobl ifanc mewn ysgolion yn cael eu diwallu.
---	--	--

Amcan Cydraddoldeb 14 – Sylwer bod hwn yn Amcan Partneriaeth sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac felly, mae'r gosodiad yn wahanol.		
Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlogi, trwy wella deilliannau'r tlogi.		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlogi, trwy wella deilliannau'r tlogi.	Parhaus – fel gyda phrosiectau a rhaglenni unigol.	<p><b>Ar waith:</b> Mae enghreifftiau'n cynnwys:</p> <p><b>1. Dechrau'n Deg</b> Erbyn diwedd 2014/15 2,657 roedd plant 0-3 oed yn manteisio ar Raglen DD yn dilyn ehangu pellach. Roedd 99% o blant wedi derbyn cynnig DD. Roedd presenoldeb wedi aros yn sefydlog ar 79.5% er gwaethaf effaith yr ehangu.</p> <p><b>2. Cyflwyno gwasanaethau</b> Arhosodd darpariaeth gwasanaethau i blant a'u teuluoedd yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt yn gryf. Ledled Abertawe, roedd rhaglen gyfan Teuluoedd yn Gyntaf wedi cefnogi 2,292 o achosion gan ddefnyddio Ymagwedd TAT. Derbyniodd y tîm TAT 260 o geisiadau am gefnogaeth. Symudodd 119 o deuluoedd ymlaen at dderbyn cefnogaeth tymor hir gan y tîm, a chefnogwyd y 141 o deuluoedd eraill gan frocera, cyfeirio at wasanaethau eraill neu drefniadau cefnogi eraill.</p>

		<p>Ar draws y maes magu plant, derbyniodd 578 o deuluoedd gefnogaeth yn 2014/15. Roedd hyn yn canolbwyntio'n gyffredinol ar gefnogi rheini i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i gefnogi datblygiad cyfannol eu plant yn well ac yn fwy effeithiol, a hyrwyddo lles iach yn eu teuluoedd, ynghyd â hyrwyddo meddwl dyheadol. Roedd hefyd yn galluogi teuluoedd i symud ymlaen i ddatblygu amgylchedd mwy sefydlog i'w plant.</p> <p>Mae deilliannau'n gyffredinol yn cynnwys plant sydd wedi'u paratoi'n well ar gyfer yr ysgol, a rhieni y mae eu hunanbarch a'u hyder wedi cynyddu a'u sgiliau magu plant wedi gwella.</p> <p><b>3. Meddygfa a Chanolfan Deuluoedd Mayhill</b> Datblygwyd y prosiect hwn yn ystod 2014/15. Cyflwynir adroddiad mewn cyfarfod Briffio Corfforaethol ym mis Mehefin 2015 o ran cynlluniau'r dyfodol.</p> <p><b>4. Gofal Plant a Chwarae</b> Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i chwarae drwy: - gefnogi mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd. 333 o blant ychwanegol yn bresennol yn 2014/15 - Sicrhau bod chwarae arbenigol yn bodoli ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae angen hynny arnynt. 3067 yn bresennol yn 2014/15.</p> <p>Hwyluso'r Grŵp Mynediad i Chwarae yn barhaus. Bwriad hwn yw lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i chwarae i blant a phobl ifanc anabl 6 chyfarfod yn ystod 2014/15</p>
--	--	--

		<p>Gweinyddwyd Cynllun Lleoedd â Chymorth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn dilyn cyfeiriadau cymwys gan TAT a'r Tîm Partneriaeth Teulu gyda'r nod o wella datblygiad plant, atal teuluoedd rhag chwalu a chefnogi presenoldeb plant cymwys mewn lleoliadau cyn ysgol a'r tu allan i'r ysgol a gofrestrir gydag AGGCC.</p> <p>Cofrestrodd 21 o ddarparwyr Gofal Plant yn swyddogol i fod yn rhan o'r cynllun, a chefnogwyd 52 o deuluoedd. Adroddodd rhieni welliant cyfartalog o bron 3 phwynt fesul deilliant. (y ceir tystiolaeth ohono drwy'r offeryn pellter a deithiwyd)</p> <p>Mae'r Cynllun Anghenion Arbennig Un i Un yn sicrhau y gall darparwr gofal plant a ddewiswyd gynnig lle i blentyn/person ifanc anabl heb unrhyw gost ychwanegol iddo ef neu'r rhiant. Mae'r cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc anabl rhwng 6 mis ac 16 mlwydd oed.</p> <p>I fod yn gymwys, rhaid i blant a phobl ifanc gael eu cyfeirio gan weithiwr proffesiynol cydnabyddedig (paediatregydd cymunedol, ymwelydd iechyd, Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig)</p> <p>Yn ystod 2014/15, roedd y cynllun wedi cefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 17 o blant mewn meithrinfa cyn ysgol/grŵp chwarae mewn 11 o leoliadau.</li> <li>• 18 o blant mewn gofal ar ddechrau a diwedd dydd/y tu allan i'r ysgol/gwyliau mewn 8 lleoliad</li> <li>• cafodd 42 o rieni/ofalwyr y cyfle i gael mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant neu seibiant</li> </ul>
--	--	---

		<p><b>5. Teuluoedd yn Gyntaf</b>  Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i hail-gomisiynu er mwyn ymateb i ofynion LIC ac anghenion lleol mewn ffordd fwy effeithiol. Mae'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd.</p>
--	--	--

### Amcan Cydraddoldeb – Tai

Amcan Cydraddoldeb 15		
Gwella mynediad cwsmeriaid i'r Gwasanaethau Tai.		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Cyrraedd Safon Rheoli Tai Cymru (SRhTC)	Ymgynghori â thenantiaid, mis Awst 2011 - Gweithio tuag at gyflawni'r safon erbyn mis Awst 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Datblygu Strategaeth Rhenti.	Rhagfyr 2015	<p><b>Ar waith:</b>  Yn wreiddiol disgwyli'd cwblhau'r Strategaeth Rhenti ym mis Ebrill 2014. Gwnaed gwaith i liniaru effaith newidiadau budd-dal ar denantiaid gan gynnwys dros 2,200 o ymweliadau â'r rhai y mae'r ffi tanfeddiannu, darparu Swyddog Cynhwysiad Ariannol penodol yn y Tîm Rhenti a hyrwyddo ymgyrch "Mae Eich Budd-daliadau'n Newid" yn effeithio arnynt.  Er bod rhai agweddau ar ddiwygio lles wedi cael eu cyflwyno, bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn gynt na'r disgwyl yn cael effaith fawr ar ganllawiau'r strategaeth ar gyfer sut bydd y cyngor yn ymdrin â'r rhai yr effeithir arnynt. Mae'n hysbys bellach y bydd Credyd</p>

		Cynhwysol yn cael ei roi ar waith yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2015. Felly, mae'n briodol ein bod yn aros i werthuso'i effaith cyn llunio'r ddogfen derfynol. Mae arolwg wedi'i gwblhau gan sampl o denantiaid i gael rhyw syniad o ymwybyddiaeth ac i helpu i gyfeirio'r cyngor o ran y dulliau cefnogi y bydd angen eu rhoi ar waith. Gan ystyried hyn, bydd y strategaeth bellach yn parhau a disgwylir ei chwblhau erbyn diwedd 2015.
Rhoi'r wefan cyngor tai newydd ar waith.	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Rhoi'r gwasanaeth ceisiadau ffôn ar waith yn llwyr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Digartrefedd a cheisiadau rhestr aros ar gyfer cwsmeriaid y mae'n well ganddynt/y mae angen iddynt gael mynediad i wasanaethau dros y ffôn.	Medi 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cynnwys materion BME yn y Strategaeth Tai Leol newydd i sicrhau ymagwedd gyfannol.	Mehefin 2015	<b>Ar waith:</b> Mae'r Strategaeth Tai Lleol yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac adroddir ar hyn i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet.
Hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth Cymraeg mewn derbynfydd cyhoeddus a thrwy'r cylchgrawn i denantiaid.	Ebrill 2012 gydag adroddiadau blynyddol am gynnydd	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Bydd sgriniau teledu yn Swyddfa Dai Ranbarthol Townhill a Threforys yn arddangos gwybodaeth ddwyieithog. Darperir bathodynau a chortynnau gwddf i staff sy'n siarad Cymraeg. Hyrwyddir gwasanaeth dwyieithog yn rheolaidd yn 'Tŷ Agored', y cylchgrawn i denantiaid, ac fe'i hyrwyddir hefyd drwy arddangos deunyddiau hyrwyddo a dwyieithog yn y dderbynfau.

## Amcan Cydraddoldeb – Adfywio Cymunedol

Amcan Cydraddoldeb 16		
Ymgymryd â gwaith partneriaeth ar yr agenda Cydlyniant Cymunedol.		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Cyflwyno cynllun gwirfoddol ar gyfer Dinas Noddfa	Mawrth 2013 ac yn parhau	<b>Heb ei gyflawni hyd yma:</b> Oherwydd y sefyllfa bresennol ynglŷn â strategaethau lleihau staff, mae wedi golygu bod adrannau'n anfodlon cynnig lleoliadau ar gyfer cynllun o'r fath. Fodd bynnag, dyma rywbeth y gellir ei annog yn y dyfodol, yn benodol yn unol â'r agenda Abertawe Gynaliadwy newydd. Gallai olygu staff yn gwirfoddoli yn hytrach nag aelodau Dinas Noddfa – newid ffocws bwriad gwreiddiol y cynllun.
Rhoi Cynllun Gweithredu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol corfforaethol ar waith a'i fonitro.	Ebrill 2014 ac yn barhaus	<b>Ar waith:</b> Y Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol bellach yw Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r nodau a'r camau gweithredu a fydd yn helpu i hyrwyddo cydlyniant yn Ninas a Sir Abertawe. Roedd y Cynllun Cyflawni'n cynnwys 7 deilliant/her Allweddol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adrannau, sefydliadau a phobl yn deall troseddau casineb, dioddefwyr yn adrodd am achosion o hyn ac yn cael y gefnogaeth briodol</li> <li>• Adrannau, sefydliadau a phobl yn deall caethwasiaeth modern, dioddefwyr yn adrodd am achosion o hyn ac yn cael y gefnogaeth briodol</li> <li>• Mwy o ymwybyddiaeth o Sipsiwn a Theithwyr a chynnwys eu cymunedau'n gynyddol</li> <li>• Mwy o ymwybyddiaeth o fewnfudo a data wedi'i sefydlu arno</li> <li>• Staff Cymunedau'n Gyntaf yn wybodus am faterion cydlyniant</li> </ul>

		<p>cymunedol, a chymunedau ar draws y nodweddion gwarchoddedig yn cymryd rhan yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae polisïau a rhaglenni drwy gynlluniau perthnasol yn darparu tystiolaeth o gyflawni o ran y blaenoriaethau cydlyniant.</li> <li>• Mae polisïau a gwasanaethau'n ymatebol i newidiadau mewn cymunedau.</li> </ul> <p>Er mwyn cyflwyno Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Abertawe, mae DASA wedi llunio model llywodraethu blaengar. Mae hyn oherwydd bod gan aelodau'r cabinet ran ymarferol i'w chwarae wrth roi cyfeiriad strategol i gyflwyno'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol.</p> <p>Diben Grŵp Arweinyddiaeth Cydlyniant Cymunedol Abertawe yw pennu gweledigaeth a chynllun gweithredu cyffredin i helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â Chydlyniant Cymunedol yn Ninas a Sir Abertawe.</p>
Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion Cydlyniant Cymunedol yn allanol ac yn fewnol	Ebrill 2013 ac yn barhaus	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar brif-ffrydio Cydlyniant Cymunedol yn ystod y cam hwn. Dyma rai enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cydlyniant Cymunedol bellach wedi'i wreiddio yn adran 4 y broses Asesu Effaith Cydraddoldeb.</li> <li>• Datblygwyd a lanswyd yr adnodd e-ddysgu Troseddau Casineb i staff ym mis Mehefin 2014.</li> <li>• Lluniwyd taflen Chwalu Mythau Anabledd a'i dosbarthu'n helaeth ymysg asiantaethau partner.</li> <li>• Grŵp ymgyrch Troseddau Casineb rhanbarthol wedi'i sefydlu sydd wedi lansio ymgyrch posteru bysus Troseddau Casineb yn ardal Bae'r Gorllewin.</li> <li>• Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) bellach ar waith rhwng</li> </ul>

		<p>DASA a Chymorth i Ddiodefwyr. Mae'r ganolfan adrodd trydydd parti am droseddau casineb wedi cael cyhoedduswydd helaeth bellach o fewn y cyngor a'r tu allan iddo.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynwyd 'Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb' ym mis Hydref 2014 mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill megis yr Heddlu, CBSCNPT, CCHBA, Prifysgol Abertawe a Chymorth i Ddiodefwyr.</li> <li>• Aeth 32 aelod o staff i sesiynau Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.</li> <li>• Cefnogwyd digwyddiad Sparkle gan ein Tîm Mynediad i Wasanaethau ac aeth oddeutu 170 o bobl iddo.</li> <li>• Roedd timau Cymunedau'n Gyntaf Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi rhoi cefnogaeth ariannol i 'Wythnos Ymwybyddiaeth Ffydd' ym mis Chwefror 2015.</li> <li>• Sefydlu Partneriaeth Lleihau Troseddau Casineb Trawsasiaeth Abertawe.</li> <li>• Cydlyniant Cymunedol wedi'i wreiddio i Gynlluniau Cyflawni Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf a'r Cynlluniau Cynnwys y Gymuned, ac maent bellach yn darparu data monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rheolaidd ar gyfer adroddiad monitro chwarterol Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Cyflwynwyd 10 sesiwn Ymwybyddiaeth o Wrth-fasnachu Pobl i staff, ac aeth 164 aelod o staff, gan gynnwys aelodau etholedig, i'r sesiynau hyn.</li> <li>• Mae Cynhadledd Ranbarthol Asesu Risgiau Amlasiantaeth Gwrth-fasnachu Pobl (MARAC) bellach wedi'i sefydlu.</li> <li>• Trafodaeth yn cael ei chynnal er mwyn cynnwys Gwrth-gaethwasiaeth/Masnachu Pobl yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig y cyngor.</li> </ul>
--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Fforwm Amlasiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Bae'r Gorllewin bellach wedi'i sefydlu, ac mae'n cwrdd bob chwarter.</li> <li>• Cyflwynwyd gweithdy i Aelodau Etholedig ar 'gefnogi a hyrwyddo cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr'.</li> <li>• Mewn partneriaeth â Dynamix, sesiwn Ymwybyddiaeth o Sipsiwn a Theithwyr</li> <li>• Lluniwyd taflen Chwalu Mythau am Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n cael ei defnyddio fel rhan o gyflwyno hyfforddiant perthnasol.</li> <li>• Cyflwynwyd adroddiad ar gydlyniant cymunedol i BGLI Abertawe ym mis Tachwedd 2014.</li> <li>• Mae gwybodaeth/data allweddol ar draws y nodweddion gwarchoddedig yn cael ei fapio ar gyfer ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.</li> </ul>
--	--	---

### Amcan Cydraddoldeb – Diwylliant a Thwristiaeth

<b>Amcan Cydraddoldeb 17</b>		
<b>Annog mwy o gyfranogiad mewn diwylliant, hamdden a chwaraeon a gwella mynediad i wasanaethau/cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Lleoliadau Diwylliannol a Pharciau		
<p>Ehangu Gwasanaeth Addysg yr Archifau ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.</p> <p>Bydd gwasanaeth addysg yr archifau'n rhoi cyfle i ysgolion ymweld â'r Gwasanaeth Archifau neu'n darparu sgysrsiau mewn ysgolion sy'n cysylltu â'r</p>	Mawrth 2013	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p> <p><b>Gwybodaeth ychwanegol:</b></p> <p>Bydd gwasanaeth addysg yr Archifau'n rhoi cyfle i ysgolion ymweld â'r Gwasanaeth Archifau neu'n darparu sgysrsiau mewn ysgolion sy'n cysylltu â'r cwricwlwm.</p>

cwricwllwm.		
Datblygu, rhoi ar waith a hyrwyddo prosiect mewn llyfrgelloedd i gyflwyno neu wella sgiliau cyfrifiadurol pobl dros 50 oed.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Sicrhau bod holl staff y llyfrgelloedd wedi cael eu hyfforddi/wedi mynd ar gyrsiau gloywi i ddefnyddio'r dolenni clyw	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Caffael cymhorthion cyfrifiadurol nam ar y golwg ychwanegol/gwell a'u rhoi ar waith mewn llyfrgelloedd.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Trefnu amrywiaeth o sgysiau amgueddfa sy'n mynd â'r amgueddfa i bobl hŷn.	Mawrth 2013	<p><b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Gwybodaeth Ychwanegol</b>  Allgymorth yr amgueddfa gyda phobl hŷn</p> <p>Oherwydd diffyg staff, nid yw'r amgueddfa'n mynd ati i hyrwyddo sgysiau allgymorth. Fodd bynnag, rydym yn mynd i ddigwyddiadau megis Rhwydwaith 50+. Mae'r grwpiau amrywiol hefyd yn rhwydweithio â'i gilydd ac yn trosglwyddo gwybodaeth y siaradwr. Mae'r Evening Post hefyd yn sôn am sgysiau yn y gymuned yn rheolaidd yn ei golofnau gwybodaeth gymunedol. Mae cysylltiadau eisoes wedi'u sefydlu gyda grwpiau penodol gan gynnwys Canolfan Gofalwyr Abertawe a PABM</p> <p><b>Addysg</b>  Mewn partneriaeth â Theatr na nÓg, caiff y rhaglen i ysgolion ei hailadrodd yn yr hydref ar gyfer grwpiau cymunedol. Roedd y cynhyrchiad yn 2014 yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf.</p>

		<p>Aeth 13 o grwpiau cymunedol i'w weld a chyfanswm o 340 o bobl.</p> <p><b>Mynediad Cymunedol</b>  Rhoddir 3 neu 4 sgwrs y mis ar gyfartaledd gan Amgueddfa Abertawe. Mae oddeutu 95% a mwy yn bobl hŷn ac mae'r mwyafrif dros 70 oed. Y cyfartaledd ar gyfer pob sgwrs yw tua 25 o bobl.</p> <p>Mae sgysiau bellach yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Abertawe yn y Rhyfel Byd Cyntaf</li> <li>• Abertawe yn yr Ail Ryfel Byd</li> <li>• Hanes a Thrysorau Amgueddfa Abertawe</li> <li>• Hanes a Chasgliad Morwrol Abertawe</li> <li>• Rheilffordd y Mwmbwls</li> <li>• Abertawe yn y 1960au</li> <li>. Cadw ac Adfer y Casgliadau Morwrol</li> <li>. Parhau i Gasglu - ein hoes!</li> </ul> <p>Mae grwpiau cymunedol a dargedir yn cynnwys y rhai mewn unedau preswyl a grwpiau sy'n gefnogol o dementia. Mae gan yr amgueddfa bellach gyfanswm o 13 o flychau cofion neu hel atgofion ar amrywiaeth o themâu/ddegawdau. Treialwyd y blychau gan Discovery (Myfyrwyr yn Gweithredu yn y Gymuned).</p> <p>Mae lle addas i bobl â dementia hefyd yn cael ei ystyried ar gyfer oriel a gaiff ei hailwampio yn nes ymlaen yn 2015.</p> <p><b>Gwaith rhwng y cenedlaethau</b>  Mae mentrau amrywiol posib yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan grwpiau cymunedol partner a chanddynt elfen o waith rhwng y</p>
--	--	--

		<p>cenedlaethau, gan gynnwys cymwysiadau Gwreiddiau Ifanc Cronfa Dreftadaeth y Loteri gan y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig a'r Caffi Coch. Penderfyniadau yn yr arfaeth ar gyfer y 3 ohonynt ar hyn o bryd. Mae elfen rhwng y cenedlaethau hefyd wrth ddefnyddio'r llong Olga o ran gwirfoddolwyr, gan ein bod yn recriwtio pobl ifanc NEET sydd wedi bod ar longau hwyliau mawr ac wrth gwrs o ran cyfleoedd hwyllo cymunedol yn gyffredinol.</p> <p><b>Gwaith cysylltiedig arall</b>  <b>Arddangosfeydd a Digwyddiadau</b>  Mae'r tîm arddangosfeydd a digwyddiadau'n dal i ymgynghori â phobl hŷn a chreu cyfleoedd iddynt gymryd rhan fel gwirfoddolwyr mewn arddangosfeydd dros dro. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys arddangosfeydd megis un MENCAP lle y dyluniwyd yr arddangosfa gan gyn-gleifion a chynhaliwyd gweithgareddau tebyg i weithdai ganddynt. Gall hyn hefyd gynnwys ail-arddangos mewn blwch unigol, megis cynghrair Pêl-droed Abertawe. Bydd arddangosfeydd sydd ar ddod hefyd yn cynnwys pobl hŷn mewn cyfleoedd dylunio a gwirfoddoli megis dathlu 100 mlwyddiant Sefydliad y Merched a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae digwyddiadau megis y sioe beiciau modur a Diwrnodau Copr hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer hel atgofion. Erys y proffil ar gyfer ymwelwyr â'r amgueddfa, y Ganolfan Gasgliadau ac ymholiadau cyffredinol i bobl 50+ yn uchel.</p> <p><b>Gwirfoddoli</b>  Mae gan yr amgueddfa ar hyn o bryd oddeutu 25 o wirfoddolwyr rheolaidd sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr amgueddfa, yn rhannol mewn partneriaeth â Phrifysgol y 3edd Oes. Mae oddeutu 30 o wirfoddolwyr eraill yn gweithio fel criw ar yr Olga. Mae 12 arall</p>
--	--	--

		wedi'u recriwtio i hwyluso teithiau copr ac rydym ar fin hysbysebu am grŵp arall o wirfoddolwyr i agor y sied dramiau. O'r 70 a mwy o wirfoddolwyr, mae tua 55 ohonynt dros 50 oed. Ceir elfen rhwng y cenedlaethau o ran gwirfoddolwyr criw'r Olga a'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd ar gyfer y teithiau copr.
Annog mwy o ymwelwyr 14-18 oed i ymweld ag Oriol Gelf Glynn Vivian trwy greu grŵp ffocws pobl ifanc a phrosiect dysgu sydd yn yr arfaeth mewn cydweithrediad â Tate fel un o'r partneriaid rhanbarthol.	Mawrth 2013	<p><b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>  Dewiswyd Oriol Gelf Glynn Vivian i fod yn rhan o gynllun ledled y DU, fel rhan o'r rhwydwaith <u>Plus Tate</u>, i helpu pobl ifanc i gysylltu a rhyngweithio ag orielau celf, mewn cyfres o raglenni, gweithdai, prosiectau a digwyddiadau. Rhoddwyd y dasg i holl bartneriaid Plus Tate o sefydlu prosiect i gysylltu â phobl ifanc 14-21 oed.</p> <p>Fe'n sbardunwyd gan hyn i sefydlu Prosiect Pobl Ifanc Glynn Vivian. Amcanion y prosiect oedd gweithio gyda phobl ifanc 14-19 oed i'w cynnwys yn rhaglen yr oriel a'r gymuned leol.</p> <p>Gosododd y bobl ifanc dasg iddynt eu hunain o gynnwys pobl ifanc eraill (14-19) mewn digwyddiad neu weithgaredd. Bathodd y grŵp o bobl ifanc 14-19 oed yr enw 'Crash' iddynt eu hunain ac aethant ati i drefnu cystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' yn y YMCA. Cafodd y digwyddiad ei drefnu a'i gynnal gan y grŵp mewn ychydig dros bythefnos yn unig. Ymwelodd y grŵp â mannau a phrosiectau celf ym Mryste ac Abertawe, gan greu ffilm ddogfen am y broses, trefnu digwyddiadau galw heibio yn y ddinas a chynhyrchu dau fideo hyrwyddol ar gyfer y bandiau <u>Alterium</u> a <u>The Fallen Empire</u>.</p> <p>Mae'r grŵp yn cwrdd bob nos Fercher ac yn ddiweddar rhoddwyd y dasg iddo o drefnu digwyddiadau i recriwtio aelodau newydd trwy'u</p>

		<p>cynnwys yn rhaglen yr oriel. Yn ddiweddar mae tîm Crash wedi ymuno â <u>'Film Club'</u>, elusen addysg sy'n ceisio trawsnewid bywydau pobl ifanc trwy ffilm.</p> <p>Ym mis Hydref ar gyfer Nos Galan Gaeaf, dangosodd tîm Crash y ffilm 'Dark Shadows' gan Tim Burton ac ers hynny, maent wedi dechrau dewis ffilmiau i'w sgrinio ar nos Fercher olaf pob mis trwy gydol 2013 fel rhan o'u rhaglen <i>'12 ffilm i'w gwyllo cyn i chi heneiddio'</i>.</p> <p>Lluniodd y grŵp gynnig am brosiect barddoniaeth ieuenctid newydd a drefnwyd gan <u>Llenyddiaeth Cymru</u> ac a ariannwyd gan SEFYDLIAD CLORE DUFFIELD. O fis Tachwedd i fis Ionawr, bydd y grŵp yn gweithio gyda'r awdur a'r bardd Patrick Jones mewn cyfres o weithdai a fydd yn archwilio barddoniaeth lafar, rap ac ychydig o waith ysgrifennu gorau Cymru.</p> <p>Yn ei hanfod, ein nod yw rhoi pobl ifanc wrth wraidd ein gwaith mewn ffordd newydd. Ein bwriad yw symbylu creadigedd a datblygu partneriaethau newydd rhwng yr oriel ac asiantaethau allweddol gan weithio gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc o Abertawe a'r cylch, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau a gwasanaethau plant. Rydym yn cydnabod yr effaith y gall y celfyddydau ei chael ar fywydau pobl ifanc, gan eu helpu i fod yn aelodau iach, diogel, hapus a chadarnhaol o gymunedau bywiog a datblygu eu hyder, eu galluoedd a'u sgiliau.</p>
<p>Gwella'r wybodaeth ar y we am fynediad i barciau er mwyn rhoi gwybod ymlaen llaw i ddefnyddwyr posib am y parciau sy'n hygyrch i bobl anabl a lleoliad y</p>	<p>Mawrth 2016</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae'r Gwasanaeth Parciau wedi cyflwyno gwybodaeth gychwynnol am fynediad i'r Adran Farchnata i'w lanlwytho i'r we. Mae hyn wedi arwain at y prif barciau'n darparu rhywfaint o wybodaeth am</p>

mynedfeydd.		fynediad. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr wybodaeth hon yn eithaf cyfyngedig ac na fyddai'n helpu pobl anabl i wybod pa mor hygyrch yw'r parc ar y tu mewn. Mae gwybodaeth am fynediad wedi cael ei hychwanegu at we-dudalennau rhai parciau (dim pob un) ond mae hon yn canolbwyntio ar fynedfeydd o hyd ac nid yw'n sôn am hygyrchedd yn y parciau eu hunain. Mae angen mwy o wybodaeth a dyna'r rheswm dros newid y dyddiad cau. Caiff hyn ei adolygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.
Adolygu'r opsiwn i ychwanegu gwybodaeth am fynediad ar arwyddion parciau a fyddai'n nodi'r llwybrau hygyrch.	Mawrth 2016	<b>Ar waith:</b> Rydym yn trafod y posibilrwydd o ychwanegu symbolau at arwyddion ynglŷn â fynediad. Efallai bydd rhaid i'r rhain fod yn sticeri i arbed costau. Rydym wrthi'n ceisio arweiniad ar arwyddion/pictogramau priodol y gellid eu harddangos ger gatiau parciau unigol er mwyn hysbysu defnyddwyr cadeiriau olwyn am addasrwydd fynediad – gwaith parhaus yw hwn a dyna'r rheswm dros newid y dyddiad cau.
<b>Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden</b>		
Adolygu'r dichonolrwydd a'r dewisiadau i ehangu'r rhaglen weithgareddau i fenywod yn unig mewn canolfannau hamdden.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Datblygu cyfleoedd i bobl anabl gyfranogi, gwirfoddoli a hyfforddi mewn chwaraeon a darparu cefnogaeth ar gyfer clybiau anabledd presennol	Mawrth 2013 ac yn parhau	<b>Ar waith:</b> Mae Gwobr Rhuban Achrediad INSPORT a gydnabyddir yn genedlaethol wedi'i chwblhau ac mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gofyn i ni wneud cais am achrediad efydd yn 2015 - bwriedir gwneud hyn yn yr hydref..  Yn dilyn ein llwyddiant wrth ennill arian gan yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuencid i benodi (mewn partneriaeth â Phrifysgol

		<p>Abertawe) swyddog “Dyfodol Cynhwysol”, mae'r rhaglen wedi'i lansio ac yn rhagori ar y targedau a bennwyd. Cylich gorchwyl y swyddog yw adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan bencampwriaeth athletau diweddar yr IPC drwy raglenni arweinyddiaeth a gwirfoddoli.</p> <p>Rydym wedi cwblhau cyfres o sesiynau Hyfforddi Cynhwysiad Anabledd ar gyfer 60 o unigolion. Rydym wedi sicrhau arian i ailadrodd y rhaglen hon yn 2015-16.</p>
<p>Annog a chefnogi clybiau chwaraeon prif ffrwd i integreiddio pobl anabl trwy lwybrau'r Corff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol.</p>	<p>Mawrth 2013 ac yn parhau</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae 4 clwb wedi derbyn achrediad INSPORT gyda'n cefnogaeth. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd gyda 6 chlwb ychwanegol a byddwn yn cysylltu â 4 arall i ddechrau'r broses eleni.</p> <p>Mae DASA wedi arwain grŵp llwybrau chwaraeon rhanbarthol sy'n cynnwys Chwaraeon Cymru a 5 ALI arall wrth ystyried llwybrau mewn chwaraeon ffocws a chreu cynlluniau gweithredu parhaus i ddatblygu cyfleoedd ym mhob un o'r campau hyn.</p> <p>Mae DASA hefyd wedi bod yn ymwneud â datblygu cynllun cydraddoldeb chwaraeon rhanbarthol gan gynnwys datblygu'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau cydraddoldeb megis Gemastryd Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru a'r fforwm chwaraeon BMT cenedlaethol.</p>
<p>Adolygu'r dewisiadau caeau chwaraeon i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer pêl-droed fach.</p>	<p>Mawrth 2013 ac yn parhau</p>	<p><b>Ar waith:</b> Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu caeau bach lleol mewn partneriaeth â'r gynghrair.</p>

<p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ar ôl ysgol (allgyrsiol)</p>	<p>Mawrth 2013 ac yn parhau</p>	<p><b>Ar waith:</b> Erys hyn yn rhan annatod o'r gwasanaeth datblygu chwaraeon. Mae'r amcan hwn yn elfen allweddol o'r strategaeth Creu Abertawe Actif ac Iach.</p> <p>Mae'r arolwg ysgolion newydd Chwaraeon Cymru yn cael ei gynnal bellach (Ebrill-Gorffennaf 2015), a disgwylir y canlyniadau ym mis Hydref.</p>
<p>Cymryd camau i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau ymhellach mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol trwy ddatblygu cyfleoedd Campau'r Ddraig a 5x60, ymgynghori â merched oed ysgol am y gweithgareddau corfforol y maent yn eu hoffi a gweithio gyda chlybiau chwaraeon i annog cyfranogiad ôl-16.</p>	<p>Mawrth 2013 ac yn parhau</p>	<p><b>Ar waith:</b> Rydym wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth ariannol ar gyfer y rhaglen US Girls fel rhan o alwadau ehangach am gais gweithredu dan arweiniad Gemastryd Cymru. Rydym yn bwriadu cynnal o leiaf 10 sesiwn gynaliadwy mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn dilyn cyfres o ymarferion ymgynghori mewn partneriaeth â chydweithwyr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf a'r Gwasanaeth Ieuencid. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau'n fuan (mis Mai 2015), a'r sesiynau'n cael eu datblygu o fis Mehefin.</p> <p>Rydym hefyd yn targedu gweithgareddau i ferched yn unig fel rhan o'n rhaglen Chwaraeon Stryd Abertawe ers tymor hydref 2014.</p>
<p>Ym mhob lleoliad</p>		
<p>Adolygu'r polisïau mynediad i ofalwyr ar draws yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth er cysondeb a thegwch. Ar ôl ei gwblhau, sicrhau bod polisïau'n cael eu hyrwyddo i sicrhau ymwybyddiaeth.</p>	<p>Mawrth 2013</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Cafodd ein cynllun Ac Un ei lansio'n llwyddiannus ar 29 Medi 2013. Fodd bynnag, mae hwn wedi'i ddisodli gan Gynllun HYNT Cymru gyfan, rydym yn ei chyflwyno nawr.</p>
<p>Hysbysu cwsmeriaid am ymrwymiad yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth i bolisi'r cyngor ar gyfer bwydo ar y fron trwy</p>	<p>Medi 2012</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>

sicrhau bod logo 'llaeth y fam' yn cael ei ychwanegu at we-dudalennau a bod sticeri/posteri mewn cyfleusterau.		
Adolygu darpariaeth y manau newid babanod ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cefnogi, targedu a darparu digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithdai Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Gwella cyfathrebu â sefydliadau BME am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal fel bod cymunedau'n ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth.	Mawrth 2016	<b>Ar waith:</b> Er nad ydym wedi gwneud rhagor o gynnydd hyd yma, byddwn yn cydgysylltu â'r Fforwm BME i symud ymlaen â hyn ac annog grwpiau ac unigolion BME i gofrestru i dderbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau ar <a href="http://www.mwynhauabertawe.com">www.mwynhauabertawe.com</a>
Sicrhau bod gwasanaethau a digwyddiadau diwylliant a thwristiaeth yn ymwybodol o arferion diwylliannol/crefyddol a'u bod yn gwneud addasiadau rhesymol i ymateb i'r rhain, lle bo modd.	Mawrth 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>

### Amcanion Cydraddoldeb – Gwasanaethau Cymdeithasol

<b>Amcan Cydraddoldeb 18</b>		
<b>Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd yr holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015

<p>Cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol fel modd i sicrhau bod pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys yn gallu cael mynediad i wasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion diwylliannol ac eraill.</p>	<p>Rhagfyr 2012 ac yn parhau</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae nifer y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol wedi parhau i gynyddu, gyda gwybodaeth yn cael ei chyfleu trwy grŵp ehangach o staff gan gynnwys gofal yn y cartref a staff derbyn.</p>
<p>Adolygu'r cynlluniau comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ar draws pob grŵp cleientiaid: Pobl Hŷn, Anableddau Dysgu, Oedolion ag Anabledd Corfforol/Nam Synhwyraidd, Iechyd Meddwl a Gofalwyr.</p>	<p>Rhagfyr 2015</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Mae comisiynu'n parhau'n broses ailadroddol gyfredol sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau newidiol y boblogaeth, ochr yn ochr â'r galw, y gwasanaethau sydd ar gael i nodi'r hyn y mae ei angen a'r adnoddau sydd ar gael. Roedd cynlluniau comisiynu'n cynnwys y cyfnod hyd at 2014 yn flaenorol. Mae angen diweddarau'r holl gynlluniau Comisiynu Gwasanaethau i Oedolion eleni, gyda phroses ymgynghori ychwanegol ac i adlewyrchu'r newidiadau sy'n ofynnol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).</p>
<p>Fel rhan o adolygu'r ffurflen Asesu Unedig, ymchwilio i gasglu gwybodaeth am ystod ehangach o nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p>Rhagfyr 2015</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Mae asesu unedig wedi'i ddiwygio yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Bydd y set data terfynol i'w chasglu gan yr asesiad unedig yn unol ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, y fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd a gofynion comisiynu'r dyfodol.</p>
<p>Parhau â'r Rhaglen Strategol Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion er mwyn cyflwyno gwasanaethau mwy personol sydd wedi'u hanelu at ddinasyddion.</p>	<p>Parhaus</p>	<p><b>Ar waith:</b> Mae cam nesaf Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (TASS) yn canolbwyntio ar roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith erbyn mis Ebrill 2016. Bydd y cam hwn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer integreiddio</p>

		gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau'r canlyniadau gorau posib, cefnogaeth/gofal sy'n canolbwyntio ar y person a gwasanaethau diogelach sy'n hyrwyddo annibyniaeth.
Cynnal (ac ymchwilio i'r posibilrwydd o estyn) rhannau o wefannau Bywydau Abertawe a Phobl Abertawe ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.	Rhagfyr 2013 (adolygiad)	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cyflwyno gwefan hollgynhwysfawr i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc	Hydref 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cyflawni asesiadau gofalwyr yn y Gwasanaeth Anableddau Plant	Rhagfyr 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Datblygu Strategaeth Gofalwyr Ifanc	Ebrill 2014	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Datblygu'r gwaith magu plant corfforaethol ymhellach trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig	Mis Hydref bob blwyddyn	<b>Ar waith:</b> Caiff hyfforddiant dynodedig ei gyflwyno'n rheolaidd i rieni corfforaethol ac mae cylch gorchwyl y bwrdd wedi cael ei ddiwygio.
Sefydlu proses drawsnewid amlasiantaeth rhwng gwasanaethau anableddau plant ac oedolion	Haf 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b> Cwblhau Protocol Trosglwyddo i gefnogi gwaith amlasiantaeth: <b>Gwybodaeth Ychwanegol</b> Mae gwaith ychwanegol yn parhau i ystyried datblygu Tîm Trosglwyddo ar y Cyd i gefnogi plant mewn angen wrth gyrraedd oedolaeth.
Cynnwys pobl ifanc yn y gwaith angenrheidiol o gyflwyno'r cynlluniau comisiynu	Haf 2014	<b>Wedi'i gwblhau</b>

### Amcan Cydraddoldeb 19

#### Darparu lefel uchel o wybodaeth am gam-drin yn y cartref a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
--------------------	-------------	--------------

<p>Agor gwasanaeth gwybodaeth a chyngor 'siop dan yr unto' yng nghanol dinas Abertawe. Bydd hwn yn darparu cefnogaeth yn y fan a'r lle i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef cam-drin yn y cartref.</p>	<p>Rhagfyr 2012</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b> Agorodd Siop dan yr Unto Cam-drin yn y Cartref Abertawe ym mis Mawrth 2015</p>
<p>Trefnu digwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth gan gynnwys Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Dileu Trais yn erbyn Menywod) a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Dyma ddau o'r digwyddiadau pennaf yng nghalendr y Fforwm Cam-drin yn y Cartref lle mae'r wybodaeth a roddir yn canolbwyntio ar wasanaethau un rhyw (menywod yn unig).</p>	<p>Ebrill 2013 ac yn barhaus</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>
<p>Mynd i ddigwyddiadau eraill megis Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i gynyddu'r ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin yn y cartref</p>	<p>Ebrill 2013 ac yn barhaus</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>
<p>Sefydlu gwasanaeth cam-drin yn y cartref penodol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn partneriaeth â PEI a'r Grŵp Strategaeth Trais yn y Cartref.</p>	<p>Rhagfyr 2013</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>

### Amcan Cydraddoldeb – Budd-daliadau

#### Amcan Cydraddoldeb 20

**Bydd y Tîm Hawlio Budd-daliadau yn cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn budd-dal treth y cyngor 1.5% o lwyth achosion budd-dal treth y cyngor erbyn 31 Mawrth 2013 (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)**

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Cynllunio a gweithredu amrywiaeth o weithgareddau a mentrau i gyflawni'r targed, fel y'u disgrifir yn ein Strategaeth Hawlio	Mawrth 2013 ac yn barhaus yn flynyddol	<p><b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>                      Parhaodd y tîm i weithio'n ddiwyd i gynyddu ymwybyddiaeth a chynorthwyo preswylwyr i hawlio Gostyngiad Treth y Cyngor (a ddisodlodd Budd-dal Treth y Cyngor) gan gymryd cyfeiriadau e.e. gan y Tîm Treth y Cyngor a'r Adran Tai yn ogystal â galwadau uniongyrchol gan drethdalwyr. Yn 2014/2015 yn sgîl gwaith y tîm, bu cynnydd o 801 yn nifer y rhai sy'n derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor a bu cynnydd o 592 yn nifer y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai. Mae ffocws y tîm wedi newid ers 2013/14 i barhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i breswylwyr ar amrywiaeth o newidiadau diwygio lles, yn enwedig o ran y cymhorthdal ystafell sbâr, y cyfeirir ato'n gyffredin fel y "Dreth Ystafell Wely" a'r Terfyn Budd-daliadau. Mae'r Tîm Hawlio'n chwarae rhan sylweddol wrth gynorthwyo tenantiaid i hawlio Taliadau Tai Dewisol a dod o hyd i atebion tymor hwy i liniaru effaith y "Dreth Ystafell Wely" megis dod o hyd i waith a symud i lety llai. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am weinyddu Prydau Ysgol am Ddim ac mae'n gwneud gwaith i gynyddu hawl i PYDd i'r eithaf drwy weithio gydag ysgolion a rhieni a chydweddu data gyda chofnodion budd-daliadau. Mae'r tîm hefyd wedi canolbwyntio ar gynorthwyo cwsmeriaid drwy ddarparu gwybodaeth/cyngor ar amrywiaeth o grantiau/disgowntiau/cymorth ariannol sydd ar gael i helpu i liniaru effeithiau'r newidiadau diwygio lles a lliniaru tlodi.</p>

**Amcanion Cydraddoldeb - Yr Amgylchedd a Diogelwch**

<b>Amcan Cydraddoldeb 21</b>		
<b>Gwella mynediad i balmentydd, ffyrdd a darpariaeth barcio er mwyn darparu mynediad gwell i bobl anabl a hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc</b>		
<b>Camau cysylltiedig</b>	<b>Dyddiad cau</b>	<b>Cynnydd 2015</b>
Rhoi'r Polisi Palmentydd i Bobl ar waith	Ebrill 2013 ac yn barhaus	<b>Ar waith:</b> Polisi yn ei le - i'w adolygu yn 2015-15.
Gosod cyrbau isel i hwyluso mynediad lle bo angen	Parhaus	<b>Ar waith:</b> Gosod cyrbau isel fesul achos.
Darparu croesfan i gerddwyr â chyfleusterau i bobl anabl.	95% erbyn Ebrill 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Ar 31/3/2014 y ganran gyfan a fu'n bodloni'r meini prawf oedd 96.5%. Hefyd, mae gan yr holl groesfannau sydd wedi'u gosod gyfleusterau i bobl anabl
Ystyried materion anghydraddoldeb wrth ddylunio cynlluniau priffyrdd a thraffig.	Cynnwys y rhain wrth ddylunio pob prosiect.	<b>Ar waith:</b> Mae gwella ymgynghori â grwpiau anabl wedi cael ei dargedu trwy gyflwyno cam newydd yn y broses datblygu dyluniadau. Mae'r fformat yn unol â'r protocol Palmentydd i Bobl a ddefnyddir fel y safon ar draws yr awdurdod. Caiff prosiectau eu hasesu'n ffurfiol gan ddefnyddio'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb, gan ddarparu o ganlyniad fwy o barhad rhwng cynlluniau, cofnod manwl o fesurau a roddir ar waith ac ystyriaeth briodol o'r grwpiau perthnasol. Caiff gweithdai ôl-gwblhau eu cyflwyno ar brosiectau perthnasol i wahodd sylwadau gan randdeiliaid allweddol er mwyn darparu gwelliannau parhaus.
Darparu hawlenni i ganiatáu i sefydliadau gofal a gofalwyr barcio mewn safleoedd parcio preswylwyr.	Parhaus	<b>Wedi'i gwblhau</b>

<b>Amcan Cydraddoldeb 22</b>		
<b>Cludiant: Gwella mynediad i fysis cyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc.</b>		
<b>Camau cysylltiedig</b>	<b>Dyddiad cau</b>	<b>Cynnydd 2015</b>
<p>Lansio system REACT yr RNIB yn yr orsaf fysis ganolog i bobl â nam ar y golwg.</p> <p>Cynnig, am flaendal a ddychwelir, ffobiau sy'n galluogi anfon negeseuon at ddefnyddwyr dall a'r rhai â nam ar y golwg.</p> <p>Darparu cyfarwyddiadau defnydd dwyieithog mewn braille, ar CD sain ac mewn print bras.</p> <p>Mae'r system yn rhoi negeseuon sain am y gwasanaethau a geir ym mhob bae gadael ac mae'n offeryn dod o hyd i'r ffordd ar y cyd â'r sribed cyffyrddol a geir trwy neuadd yr orsaf.</p>	Hydref 2011	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p> <p><b>Gwybodaeth ychwanegol:</b></p> <p>Rhodddwyd hyn ar waith yn 2011 ac mae hefyd yn gweithredu ar gerbydau ffrMetro ac mewn arosfannau Metro allweddol. Ar y cyd â hyn, yn 2012, datblygwyd mapiau cyffyrddol a phrint mawr o'r orsaf fysis a'r orsaf drenau gyda'r RNIB a'r Sefydliad Cŵn Tywys ar gyfer y Deillion a chânt eu dosbarthu yn y ddau gyfleuster.</p>
<p>Datblygu rhaglen i ddarparu cyrbau uchel mewn safleoedd bysus i hwyluso mynediad i deithwyr â phroblemau symudedd. Cwrdd â grwpiau anabledd i geisio'u barn ar flaenoriaethu.</p> <p>Mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n ei gwneud yn ofyniad i fysis fod yn hygyrch erbyn 2015. Bydd hyn yn cynyddu'r angen i'r cyngor ddarparu cyrbau uchel.</p>	Rhaglen ar waith erbyn 2015	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p> <p><b>Gwybodaeth ychwanegol:</b></p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad â SAFE, datblygwyd rhaglen ac i ddechrau, gosodwyd cyrbau uchel mewn arosfannau bysus allweddol ledled y sir. Darparwyd cyrbau uchel hefyd ar hyd coridorau'r prif wasanaeth bysus gan gynnwys Heol Caerfyrddin, Heol y Mwmbwls a Heol Gŵyr. Yn y dyfodol, gosodir cyrbau uchel lle darperir cysgodfannau bysus newydd.</p>

Amcan Cydraddoldeb 23		
Gwella darpariaeth diogelwch cymunedol – a chanfyddiadau o fod yn ddiogel – ar draws cymunedau Abertawe		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Darparu CCTV sefydlog a theithiol	Parhaol	<p><b>Ar waith:</b> Mae adolygiad cynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddarpariaeth CCTV wedi'i gynnal. O ganlyniad, mae nifer sylweddol o gamerâu CCTV wedi cael eu datgomisiynu er mwyn arbed arian. Mae'r nifer llai o gamerâu CCTV yn dal i ffilmio 24 awr y dydd, 7 niwrnod o'r wythnos yn ardal graidd canol y ddinas. Mae cyfleuster symudol ar gael er mwyn ymateb i broblemau i ffwrdd o gamerâu'r brif system.</p>
Darparu cyngor atal troseddu		<p>Darperir cyngor atal troseddu gan staff cymwys a phrofiadol o hyd pryd bynnag y gofynnir amdano. Caiff egwyddorion “Secured by Design” eu hyrwyddo'n weithgar. Mae sawl menter wedi'i chyflawni e.e. ceisio lleihau byrgleriaeth o gartrefi yn ystod y gwyliau a lladrata ac achosion o ddwyn oddi ar syrffwyr.</p>
Cyfathrebu cadarnhaol a thawelu meddyliau		<p>Cyflawnwyd nifer mawr o weithgareddau cynnwys y gymuned drwy'r ardal gyfan, gan ddefnyddio lleoliadau sefydlog a cherbydau teithiol, gyda'r diweddaraf yn y Sioe Awyr. Mae “man cymorth” ac “ardal ollwng” yr economi nos wedi cael eu hehangu a'u prif-ffrydio. Caiff y rhain eu hyrwyddo fel arfer gorau gan y Swyddfa Gartref oherwydd cyfranogiad Abertawe ym menter Ardaloedd Gweithredu Lleol ynghylch Alcohol. Cafwyd menter lwyddiannus i gynnwys yr “Evening Post” er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd cadarnhaol i wobr Baner Borffor Cymdeithas</p>

<p>Cynnwys cymunedau gan swyddogion</p> <p>Swyddog Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol</p>		<p>Rheolwyr Canol y Ddinas (ATCM).</p> <p>Cynhelir cyfathrebu cadarnhaol yn y cyfryngau i hybu hyder y cyhoedd a lleihau ofn troseddu. Mae hyn yn cynnwys mentrau megis "Pawennau ar Batrol".</p> <p>Erys lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhan bwysig o waith yr uned Diogelwch Cymunedol. Caiff dau aelod o staff arbenigol rhan-amser eu cyflogi a'u rhannu â Chastell-nedd Port Talbot. Caiff ffigurau rheoli misol eu cynhyrchu a'u darparu i aelodau ward.</p>
--	--	--

Amcan Cydraddoldeb 24 – addaswyd ar gyfer 2013		
Llunio Strategaeth Troseddau Casineb ar draws y cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol.		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Cydgysylltu â grwpiau anabledau lleol i gofnodi eu profiadau o gasineb ac aflonyddu a chynnwys yr wybodaeth a gasglwyd mewn adroddiad.	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cynnwys manylion yr ymgyrch a gwybodaeth am ddulliau adrodd ar wefannau Heddlu De Cymru a DASA	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cynnal o leiaf 4 sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth gyda grwpiau cymunedol yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch.	Ebrill 2013	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Drafftio Strategaeth Troseddau Casineb	Ebrill 2015	<p><b>Ar waith:</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb - Fframwaith Gweithredu'. O ganlyniad, mae gwaith wedi cychwyn gyda phartneriaid, sef Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb a luniwyd ar gyfer Abertawe, gan</p>

		ystyried y fframwaith cenedlaethol ynghyd â digwyddiad ymgynghori wedi'i drefnu gyda phartneriaid.
--	--	--

<b>Amcanion cydraddoldeb 25</b>		
<b>Gweithio mewn partneriaeth yn lleol ar fentrau hybu iechyd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r holl gymunedau</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Amlinellu cylch gorchwyl y Grŵp Gweithredu Tybaco	Ionawr 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Datblygu Cynllun Gweithredu Tybaco ar gyfer Abertawe a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd a nodwyd mewn asesiadau anghenion lleol ac ymarferion mapio.	Cynllun wedi'i ddatblygu erbyn mis Mehefin 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Cyflwynwyd cynllun newydd ar gyfer 2014 - 2017 i'r Bwrdd Dinas Iach yn nghyfarfod mis Ionawr ac fe'i gymeradwywyd.
Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno trwy feicio neu gerdded yn ardaloedd y prosiect Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau.	I'w bennu pan fydd swm yr arian yn hysbys ar gyfer 2012/13	<b>Ar waith:</b> Caiff cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ei gyflwyno bob blwyddyn. Caiff ysgolion eu hannog i gynyddu nifer y plant sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol.

<b>Amcan Cydraddoldeb 26</b>		
<b>Gwella prosesau a gweithdrefnau mewnol yn y gwasanaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd Abertawe er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb nid yn unig yn cael eu cynnwys ond bod y canlyniadau sy'n dilyn wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
<b>Rheoli Adeiladu</b>		
Parhau ag arolygon ymgynghori â chwsmeriaid gan gynnwys holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.	Cyflwyno arolwg parhaus ar ôl cwblhau'r prosiect.	<b>Wedi'i gwblhau</b>

Gwirio pob lefel o effaith ar wahanol grwpiau yn y gymdeithas, gan gynnwys unrhyw lefel andwyol o orfodi	Bob 6 mis	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Dadansoddi data cwynion/sylwadau	Yn barhaus ar ôl ei dderbyn	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Cyhoeddi'r canlyniadau.	Ebrill 2012 ac yn barhaus (blynyddol)	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Caiff yr holl wybodaeth, ffurflenni, taflenni etc eu darparu mewn unrhyw iaith/format os gofynnir am hyn.	Ar gael yn ôl y galw.	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Hysbysebu Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS)/darparu cyfieithydd ar y pryd yn ôl yr angen.	Ar gael yn ôl y galw.	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Claddedigaethau ac Amlosgiadau</b>		
Darparu trefniadau claddu/amlosgi yn unol â gofynion grwpiau ethnig a chrefyddol/cred yn Abertawe	Parhaus	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Rheoli Gwastraff</b>		
Casgliadau gwastraff â chymorth i bobl anabl a hŷn.	Adolygu'n fisol.	<b>Ar waith:</b> Darperir y gwasanaeth o hyd i'r holl breswylwyr y mae angen cymorth arnynt â'u bagiau o eitemau gwastraff. Rydym bob amser yn edrych ar ffyrdd i wella'r agwedd hon o'r gwasanaeth ymhellach, ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella.
<b>Gwybodaeth ychwanegol a ddarperir:</b> <i>Siaradwyr iaith gymunedol</i>	<i>Adolygu'n fisol</i>	<i>Llunio taflenni ag arweiniad darluniadol.</i>  <i>Lluniwyd arweiniad ailgylchu yn yr iaith Fandarin</i>  <i>Mae ymweliadau wyneb yn wyneb i drafod casgliadau sbwriel ac</i>

		<p><i>ailgylchu yn parhau drwy'r fenter curo ar ddrysau.</i></p> <p><i>Mae gweithgareddau hyrwyddo'n parhau er mwyn cefnogi a hyrwyddo ymhellach yr angen am fwy o ailgylchu. Mae amserlen o weithgareddau hyrwyddol a chynnwys ar gael gan yr is-adran ailgylchu ar gais.</i></p>
--	--	--

### Amcan Cydraddoldeb – Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GA ac EC)

Amcan Cydraddoldeb 27		
Sicrhau recriwtio gweithlu amrywiol yn y GA ac EC		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
<p>Recriwtio – Sicrhau bod yr holl recriwtio yn y dyfodol yn y GA ac EC yn parhau i gael ei wneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan roi sylw penodol i'r rhaglen recriwtio prentisiaid. Datblygu cysylltiadau ymhellach â grwpiau/sefydliadau allanol i alluogi ymwybyddiaeth ehangach o'r fenter ac i gefnogi'r GA ac EC. Bydd parhad y rhaglen recriwtio prentisiaid yn dibynnu ar gymeradwyaeth gyllidebol yn y dyfodol.</p>	<p>Mawrth 2013 ac yn barhaus yn flynyddol</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>            Dechreuodd recriwtio prentisiaid GA ac EC ar gyfer 2015 ym mis Mawrth. Fel arfer hysbysebwyd y cyfleoedd yn y wasg leol, y ganolfan gwaith ac ar wefan Gyrfaoedd Cymru. Buom yn gweithio hefyd gyda'r Ymddiriedolaeth Ieuencid Adeiladu gan gwrdd ag ymgeiswyr posib trwy'r gweithdai adeiladu. Buom yn gweithio gyda'r mentrau Y Tu Hwnt i Frics a Morter a Gweithffyrdd.</p> <p>Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chynllun Prentisiaeth Rhanbarthol a Rennir De-orllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys prentisiaid a gyflogir gan y cynllun yn cwblhau lleoliad gwaith tymor byr gyda GA ac EC. Byddant yn cael profiad gwerthfawr yn y gweithle a hefyd gwblhau'r unedau gofynnol yn unol â chymwysterau NVQ eu bod yn gweithio tuag atynt.</p> <p>Ers mis Hydref 2013 rydym wedi cydgysylltu â'r prosiect COASTAL i</p>

gynnig lleoliadau (dros 13 wythnos) i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo.

## Amcan Cydraddoldeb – Caffael

### Amcan Cydraddoldeb 28

#### Cydymffurfio â'r rheoliad caffael a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
<p>Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau sy'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol;</li> <li>ystyried a fyddai'n briodol i nodi amodau sy'n ymwneud ag ymgymryd â'r contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.</li> </ul>	Ebrill 2012	<p><b>Wedi'i gwblhau</b>  <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>  Ystyr 'caffael cyhoeddus' yw prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau gan gyrrff cyhoeddus penodol. Er mwyn sicrhau symudiad rhydd nwyddau a gwasanaethau, cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd gyfres o gyfarwydddebau caffael cyhoeddus i ragnodi y dylid dyfarnu contractau'n deg heb wahaniaethu ar sail cenedligrwydd. Ei nod yw sicrhau cystadleuaeth deg, agored a thryloyw am gontractau cyhoeddus, trwy hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (CSUE) a dilyn y gweithdrefnau manwl canlynol. Mae'r cyfarwydddebau hyn wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd), (y 'Rheoliadau Caffael') ac amrywiaeth o reoliadau eraill.</p> <p>Mae'n rhaid i holl weithgarwch caffael y cyngor roi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r holl weithgarwch caffael â budd trawsffiniol gydymffurfio ag egwyddorion Cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd sy'n sicrhau tegwch a thryloywder.</p> <p>Gofynnir am feini prawf gofynnol ar gyfer cydraddoldeb [yn benodol unrhyw doriadau] ar gyfer pob contract caffael yn y cam cyn-</p>

		<p>gymhwyso. Mae'n ofynnol i bawb sy'n cyflwyno tendr ddatgelu achosion o fynd yn groes i ddeddfwriaeth Gydraddoldeb a chael cyfle i gasglu tystiolaeth o hunan-lanhau.</p> <p>Dylid ceisio cyngor cyfreithiol neu gaffael o ran cynnwys meini prawf dyfarnu neu amodau contract i fodloni Rheoliad 18.</p>
--	--	---

### Amcanion Cydraddoldeb – Cyfathrebu, Marchnata, Trosolwg a Chraffu

<b>Amcan Cydraddoldeb 29</b>		
<b>Ymchwilio i addasiadau posib i ddyfeisiau amlswyddogaeth (llungopiwyrr) mewn gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd megis llyfrgelloedd, ysgolion a swyddfeydd mewnol. Gallai addasiadau gynnwys gostwng y paneli rheoli i helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn wrth lungopio, sganio a chasglu dogfennau.</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Ymchwilio i addasiadau gan gyflenwyr	Mehefin 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Ymgynghori â defnyddwyr dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion	Mehefin 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Llunio tendr dyfeisiau amlswyddogaeth i gynnwys costau ac argaeledd addasiadau ar gyfer hygyrchedd	Gorffennaf 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Ar y cyd â chwsmeriaid dyfeisiau amlswyddogaeth, nodi a gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion mynediad.	Yn barhaus o fis Mawrth 2013.	<p><b>Ar waith:</b> Gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o fis Mehefin 2013 gydag offer rheoli isel a sgriniau troi i fyny/i lawr i alluogi mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Gohirio amnewid dyfeisiau amlswyddogaeth llyfrgelloedd nes i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd benderfynu ar ateb cyfarpar a meddalwedd.</p>

<b>Amcan Cydraddoldeb 30</b>		
<b>Gweithredu'n briodol i sicrhau bod modd i bobl â nam ar y golwg fwynhau Arwain Abertawe</b>		
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2015
Adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl â nam ar y golwg	Mehefin 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Ymchwilio i sut mae awdurdodau lleol eraill yn darparu gwasanaethau i bobl â nam ar y golwg o ran eu papur bro.	Mehefin 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Ymchwilio i farn sefydliadau lleol perthnasol	Gorffennaf 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b>
Adolygu goblygiadau adnoddau'r adroddiad a datblygu cynllun gweithredu.	Hydref 2012	<b>Wedi'i gwblhau</b> <b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Cafodd hwn ei adolygu ym mis Chwefror 2014. Cost y tapiau sain ar hyn o bryd yw £900 y flwyddyn. Nid oes unrhyw oblygiadau adnoddau eraill o'r gwasanaeth.
Cymeradwyo'r cynllun gweithredu	Rhagfyr 2012 ac yn barhaus (adolygu'n rheolaidd)	<b>Ar waith:</b> Er nad oes unrhyw gynnig i roi terfyn ar dapiau sain ar hyn o bryd, cysylltwyd â'r tri defnyddiwr presennol i ofyn a oeddent yn dymuno parhau â'r gwasanaeth a chafwyd ymateb gan ddau ohonynt. Gwnaeth un cais i'r gwasanaeth barhau, gofynnodd y llall iddo barhau ond dywedodd y byddai'n deall petai'n dod i ben. Mae dewisiadau posib i'w hystyried yn cynnwys cadw'r sefyllfa bresennol; darparwr arall; rhoi terfyn ar y gwasanaeth.
Rhoi cynllun gweithredu ar waith, gan gynnal adolygiadau blynyddol a gwneud addasiadau lle bo hynny'n briodol.	O fis Ebrill 2014	<b>Ar waith:</b> Gohiriwyd hyn wrth ystyried terfynu Arwain Abertawe; gan fod cyn lleied o ddefnyddwyr, argymhellir y dylid terfynu'r gwasanaeth.

## Atodiad 2

### Gwybodaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant

#### Data Cyflogaeth ym mis Mawrth 2015

Lle gallai gwerthoedd isod alluogi adnabod aelodau unigol o staff, mae figurau wedi cael eu disodli gan \*.

Swyddi	Nifer y bobl a gyflogwyd gan yr awdurdod ar 31 Mawrth 2013 (swyddi)	Hyd at fis Mawrth 2014	Mewn swydd		Rhai sy'n gadael
<b>Oedran</b>	<b>15635</b>		<b>13348</b>		
16-24 oed	1029	16-24 oed	693	16-24 oed	187
25-39 oed	4788	25-34 oed	2457	25-39 oed	394
35-44 oed		35-44 oed	3489	35-44 oed	208
40-49 oed	4676	45-49 oed	2160	40-49 oed	197
50-59 oed	3882	50-59 oed	3550	50-59 oed	239
60+	1260	60+	999	60+	268
55-59 oed	928	55-59 oed	1528	55-59 oed	239

<b>Rhyw</b>	<b>15635</b>	<b>9049</b>
Gwryw	4379	5636
Benyw	11256	3413

<b>Anabledd</b>		
Anabl	88	76
Ddim yn anabl/Dewis peidio â dweud	15547	8973

**Canran y gweithwyr, gan gynnwys athrawon a staff ysgolion sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod lleol, yn wirfoddol neu'n anwirfoddol (Rhif DP CHR/001)**

<b>Nifer y Rhai sy'n Gadael</b>	
Nifer y rhai sy'n gadael (cyfrif pennau)	727
Nifer y staff (cyfrif pennau)	11195
Canran	6.5

## Ethnigrwydd

<b>Grŵp Ethnig</b>	
Gwyn - Prydeinig	2031
Gwyn - Unrhyw un arall	98
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – gan gynnwys Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd neu unrhyw un arall	21
Du neu Ddu Prydeinig – gan gynnwys Affricanaidd, Caribïaidd neu unrhyw arall	14
Cymysg	*
Grŵp Ethnig Arall	*
GWAG	13,464
<b>Cyfanswm</b>	<b>15635</b>

## Crefydd

<b>Crefydd neu gred</b>	<b>995</b>
Dim crefydd	174
Cristnogaeth (pob enwad)	652
Unrhyw grefydd arall (gan gynnwys Bwdhaeth, Iddewiaeth ac Islam)	133
Dewis peidio â dweud	36

## Gwybodaeth am hyfforddiant a gasglwyd rhwng 2014 a 15

Mae'r system a ddefnyddiwyd i gasglu data hyfforddiant yn cael ei newid i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth fanylach. Am y rheswm hynny, eleni, dim ond ffigurau ar gyfer mis Ebrill tan fis Hydref 2014 sydd gennym. Fodd bynnag, o 2015, byddwn yn gallu dechrau adrodd yn llawnach fesul cam wrth i fwy o wybodaeth am hyfforddiant gael ei hychwanegu at y system.

### Yn ôl rhyw:

Gwryw	181
Benyw	293

### Yn ôl oedran:

24 oed ac iau	17
25 – 39	122
40 – 49	176
50 – 59	143
60+	11
Heb ei nodi	6

### Yn ôl cenedligrwydd:

Prydeinig	469
Ddim yn Brydeinig	6
Ffoadur	0
Heb ei nodi	0

### Yn ôl grŵp ethnig:

Gwyn	466
Arall (e.e. Asiaidd, Du, Tsieineaidd)	6
Heb ei nodi	3

### Yn ôl crefydd:

Cristion	243
Arall (e.e. Iddew, Mwslim, Bwdhydd)	*
Ddim yn gwybod	5
Dim	199
Heb ei nodi	19

### Yn ôl anabledd:

Salwch, problem iechyd neu anabledd tymor hir	20
---	----